Cadw

Canllawiau technegol

# Rheoli mynediad hawdd i adeiladau rhestredig yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Clawr: Roedd gwella mynediad yn un o'r egwyddorion arweiniol pwysig pan aed ati i ymgymryd â phrosiect cadwraeth uchelgeisiol yn Llancaiach Fawr. Drwy ychwanegu tŵr grisiau cwbl newydd a gosod lifft platfform ynddo, llwyddwyd i sicrhau, am y tro cyntaf yn hanes hir yr adeilad ysblennydd hwn, sy'n un rhestredig gradd 1, ei bod bellach yn hawdd cael mynediad i'r lloriau uchaf. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru

OGL WG39518 / © Hawlfraint y Goron 2022 ISBN digidol 978-1-80391-977-5

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# Cynnwys


**Datganiad o Ddiben** 04

**Ffeithiau Cyflym** 06

**Cyflwyniad** 07

**1. Pam Bod Mynediad yn Bwysig** 09

1.1 Egwyddorion Cadwraeth

1.2 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

1.3 Cydraddoldeb
- 1.3.1 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- 1.3.2 Cyflogwyr
- 1.3.3 Darparwyr Gwasanaethau
- 1.3.4 Gwirfoddolwyr
- 1.3.5 Sefydliadau Addysgol

**2. Y Fframwaith Rheoleiddio** 15

2.1 Caniatâd Cynllunio

2.2 Rheoliadau Adeiladu 2010: Dogfen Gymeradwy M i'w Defnyddio yng Nghymru

2.3 Cydsyniad Adeilad Rhestredig

2.4 Yr Esemptiad Eglwysig

2.5 Cydsyniad Heneb Gofrestredig

2.6 Parciau a Gerddi Hanesyddol

**3. Cynllunio Gwell Mynediad** 21

3.1 Beth sy'n Rhesymol?
- 3.1.1 Y Strategaeth a'r Cynllun Mynediad
- 3.1.2 Yr Archwiliad Mynediad
- 3.1.3 Yr Asesiad o Arwyddocâd
- 3.1.4 Y Cynllun Mynediad
- 3.1.5 Materion Rheoli
- 3.1.6 Ariannu Gwelliannau Mynediad

3.2 Rhwystrau i Fynediad
- 3.2.1 Goresgyn Rhwystrau
- 3.2.2 Cael Gwared ar y Nodwedd
- 3.2.3 Addasu'r Nodwedd
- 3.2.4 Datrys Rhwystrau i Fynediad
- 3.2.5 Darparu'r Gwasanaeth mewn Ffordd Arall

**4. Sicrhau bod Mynediad yn Realiti** 32

4.1 Cyngor Ymarferol ac Enghreifftiau

4.2 Ystyriaethau Cyffredinol

4.3 Symud yn Llorweddol
- 4.3.1 Creu Mynediad
- 4.3 2 Drysau ac Agoriadau
- 4.3.3 Trothwyon
- 4.3.4 Lloriau
- 4.3.5 Coridorau
- 4.3.6 Cyferbyniad Gweledol

4.4 Symud yn Fertigol
- 4.4.1 Rampiau
- 4.4.2 Grisiau a Landins
- 4.4.3 Canllawiau
- 4.4.4 Lifftiau
- 4.4.5 Dianc mewn Argyfwng

4.5 Goleuadau, Arwyddion a Gwybodaeth
- 4.5.1 Goleuadau
- 4.5.2 Arwyddion
- 4.5.3 Gwybodaeth

4.6 Tirwedd a Gosodiadau

4.7 Dodrefn Stryd a Seddau

**Rhagor o Wybodaeth** 53

**Cysylltiadau** 55

# Datganiad o Ddiben

Mae *Rheoli Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* yn egluro sut i gynllunio a gwella mynediad ffisegol i adeiladau rhestredig yng Nghymru. Mae'n defnyddio enghreifftiau go iawn, sy'n amrywio o fân waith gwella i ddatrysiadau dylunio modern o ansawdd uchel, er mwyn dangos sut y gellir cynnig gwell mynediad.

Mae hefyd yn egluro sut y gall gwelliannau o ran mynediad ystyried *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*[1] a gyhoeddwyd gan Cadw ac mae'n nodi crynodeb o'r fframwaith rheoleiddio sy'n llywodraethu newidiadau i adeiladau rhestredig.

Nod *Rheoli Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* yw helpu pob un sy'n berchen ar adeiladau rhestredig yng Nghymru, neu sy'n rheoli neu'n meddiannu adeiladau o'r fath. Dylai hefyd helpu'r sawl sy'n bwriadu gwneud addasiadau neu sy'n rhoi cyngor ar ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau. Mae'n arbennig o berthnasol i'r adeiladau rhestredig hynny sy'n cynnig gwasanaethau i aelodau'r cyhoedd, megis arlwyo, bancio neu siopa, neu y mae pobl yn ymweld â nhw at ddibenion hamdden, gwaith, addoli neu addysg.

Er bod *Rheoli Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* yn berthnasol yn benodol i adeiladau rhestredig, mae'r dulliau gweithredu a ddisgrifir yma yn berthnasol i unrhyw adeilad hanesyddol yng Nghymru.

**Dylid edrych ar** *Ddogfen Gymeradwy M o Reoliadau Adeiladu Cymru*[2] a BS 8300 *Design of an Accessible and Inclusive Built Environment*[3] i gael cyngor ac arweiniad ynghylch polisïau, arferion a gweithdrefnau ehangach sy'n ymwneud â mynediad. Maent hefyd yn cynnwys canllawiau dylunio cyffredinol. Ceir cyngor ychwanegol am ddylunio yn *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio*[4] a chan Gomisiwn Dylunio Cymru yn *Inclusive Design in the Built Environment: Who Do we Design For?*[5]

Dylai awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau hefyd ddefnyddio'r canllawiau hyn ochr yn ochr â *Polisi Cynllunio Cymru*,[6] *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*[7] a'r *Egwyddorion Cadwraeth* i lywio eu polisïau eu hunain ac wrth ystyried ceisiadau unigol am ganiatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig, gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio.

**Cydnabyddiaeth**
Mae Cadw yn ddiolchgar i Historic England am roi caniatâd i seilio testun y canllawiau arfer gorau hyn ar *Easy Access to Historic Buildings*,[8] a gyhoeddwyd yn 2015.

# Ffeithiau Cyflym

— Gall mynediad o ansawdd da i adeiladau rhestredig wella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol.

— Gellir gwneud gwaith addasu sensitif er mwyn gwella mynediad heb gael effaith andwyol ar ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig adeilad rhestredig.

— Gall yr awdurdod cynllunio lleol, Cadw a grwpiau mynediad lleol roi cyngor gwerthfawr cyn i chi wneud cais am unrhyw gydsyniad i wella mynediad.

— Gall archwiliadau, strategaethau a chynlluniau mynediad helpu i ystyried anghenion pobl ochr yn ochr ag anghenion adeiladau rhestredig.

— Mae datganiadau mynediad yn arfer da, ac mae rhaid eu llunio i gyd-fynd â rhai datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig.

— Mae datganiadau dylunio a mynediad yn ofynnol ar gyfer rhai ceisiadau am ganiatâd cynllunio.

— Mae BS 8300 *Design of an Accessible and Inclusive Built Environment, Dogfen Gymeradwy M o'r Rheoliadau Adeiladu i Gymru* ac *Inclusive Design inthe Built Environment: Who Do we Design For?* yn ffynonellau arweiniad da.

**Yr Hen Lyfrgell, Caerdydd**

Mae parhau i fedru defnyddio'n hadeiladau rhestredig a sicrhau bod pobl yn gallu mynd i mewn iddynt yn allweddol er mwyn eu gwarchod yn effeithiol. Erbyn hyn, mae Hen Lyfrgell Caerdydd yn gartref i Amgueddfa Caerdydd ac eiddo masnachol. Drwy ychwanegu podiwm ac arno ramp â chanllawiau i un o brif ffasadau'r adeilad, llwyddwyd i sicrhau mynediad i bawb i'r adeilad cyhoeddus pwysig hwn yng nghanol y ddinas. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



# Cyflwyniad

**Mae'r amgylchedd hanesyddol yn rhan hanfodol o'n treftadaeth ddiwylliannol gyffredin. Mae'n creu ein hymdeimlad o le ac yn cyfrannu at ein llesiant a'n hansawdd bywyd. Mae adeiladau rhestredig yn chwarae rhan bwysig yn amgylchedd hanesyddol Cymru. Yn aml maent yn ganolbwyntiau o fewn trefi a chymunedau lle y maent yn gwneud cyfraniadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pwysig fel atyniadau i ymwelwyr, busnesau, cyfleusterau cymunedol, addysgol a hamdden, a chartrefi.**

Felly, dylai adeiladau rhestredig fod yn hygyrch i bawb ac er y dylid rhoi blaenoriaeth i anghenion pobl anabl, bydd sicrhau mynediad haws o fudd i bob un ohonom, fwy neu lai, ar ryw gam o'n bywyd. Mae gwaith dylunio ystyriol ac effeithiol yn werthfawr i bawb.

Mae Cadw yn awyddus i hyrwyddo datrysiadau mynediad sy'n cyfuno cadwraeth â gwaith dylunio modern ardderchog ac arloesol. O feddwl a chynnal trafodaethau priodol, gellir dod o hyd i ateb i bob rhwystr bron, yn enwedig gan fod y cyfleoedd technegol i'w goresgyn — a hefyd fodloni disgwyliadau pobl — yn esblygu o hyd. Mae *Rheoli Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* yn dangos sut y gellir troi'r weledigaeth hon yn realiti ymarferol.

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys pedair rhan. Mae Adrannau 1 a 2 yn rhoi trosolwg o pam bod mynediad yn bwysig a'r fframwaith statudol sy'n llywodraethu newidiadau i adeiladau rhestredig. Mae adran 3 yn ystyried y gwaith o gynllunio gwell mynediad, gan gynnwys strategaethau, archwiliadau, asesiadau cadwraeth a chynlluniau mynediad. Mae'r rhan olaf, sef adran 4, yn ystyried yn fanylach sut y gellir rhoi cynlluniau mynediad ar waith gan ddefnyddio enghreifftiau go iawn sy'n dangos sut y gellir cyflawni mynediad hawdd i adeiladau rhestredig.

Mae Cadw yn gobeithio y bydd *Rheoli Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* yn hyrwyddo datrysiadau o ansawdd da sy'n cynnig mynediad haws, gan ar yr un pryd annog ymdrechion i ofalu am yr adeiladau hanesyddol sy'n bwysig i bob un ohonom mewn ffordd gyfrifol.

**Nid dim ond polisi syml o sicrhau bod rhywfaint o fynediad ar gael i bobl anabl yw polisi Deddf Cydraddoldeb 2010; ond polisi i sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, bod yr un lefelau mynediad ar gael i bobl anabl â'r lefelau mynediad a gaiff eu mwynhau gan weddill y cyhoedd. Diben y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yw darparu mynediad i wasanaeth sydd mor agos ag y bo'n rhesymol bosibl at y safon a gynigir fel arfer i'r cyhoedd yn gyffredinol (a'r sefyllfaoedd cyfatebol o ran cymdeithasau neu o ran arfer swyddogaethau cyhoeddus).**

**Deddf Cydraddoldeb 2010** *Services, Public Functions and Associations: Statutory Code of Practice*, **2011.**[9]

**Gwesty’r Esplanade, Llandudno**

Mae dylunio da yn elfen bwysig o greu ffyrdd llwyddiannus o ddarparu mynediad i adeiladau rhestredig. Pan aed ati i adnewyddu Gwesty’r Esplanade yn Llandudno yn 2014, roedd darparu mynediad i bobl anabl a’u gofalwyr yn ganolog i’r busnes. Mae’r manylion ar y ramp mynediad yn adlewyrchu’r rheilen art-deco hardd ar y feranda. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



# 1–
# Pam Bod Mynediad yn Bwysig

**Castell Caernarfon, Caernarfon**

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd y dylai pawb gael ei fwynhau. Mae darparu mynediad i gaer ganoloesol fel Castell Caernarfon yn her, ond mae ramp yn y brif fynedfa a wynebau gwastad yn y cyrtiau mewnol. Mae Cadw yn croesawu ymwelwyr anabl a'u gofalwyr drwy gynnig mynediad di-dâl i'w safleoedd. © Hawlfraint y Goron (2022), Croeso Cymru



**Mae Cadw yn cydnabod y dylai pawb allu mwynhau mynediad hawdd a chynhwysol i'r amgylchedd hanesyddol. Gall cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal mynediad roi cyfle i lawer mwy o bobl ddefnyddio'r amgylchedd hanesyddol a chael budd ohono ac, os gwneir hynny mewn modd sensitif, ni chaiff gallu cenedlaethau'r dyfodol i wneud yr un fath ei beryglu.**

Gall darparu mynediad hawdd i eiddo â gwahanol lefelau, llwybrau anwastad a rhwystrau eraill ymddangos yn dasg anodd. Serch hynny, mae'n syndod faint y gellir ei gyflawni drwy feddwl yn ofalus a chael cyngor da. Er mai rhwystrau ffisegol yn aml sy'n creu'r heriau mwyaf, gall newidiadau i ddulliau dehongli a gwasanaethau hefyd gynyddu gallu pobl i ymgysylltu â'n treftadaeth ddiwylliannol, gan wneud iawn i ryw raddau o leiaf am unrhyw gyfyngiadau na ellir eu hosgoi o ran mynediad ffisegol.

Gall deddfwriaeth hefyd ei gwneud yn ofynnol i'w gwneud hi'n haws defnyddio adeiladau rhestredig a'r tirweddau o'u hamgylch. Yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n cynnwys y nod o sicrhau Cymru fwy cyfartal o dan y gyfraith, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn amddiffyn pobl rhag achosion o gamwahaniaethu mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cael gafael ar wasanaethau, addysg a chyflogaeth.

Efallai y bydd cyfle i fwy o amrywiaeth o waith gael cydsyniad ymlaen llaw pan fo'r gwaith wedi'i ddiffinio a'i gytuno mewn cynllun rheoli cadwraeth sydd eisoes yn bodoli.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd,[10] sy'n rhan o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.[11] Mae'r model cymdeithasol yn nodi gwahaniaeth pwysig rhwng 'nam' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl â namau yn cael eu hanablu gan rwystrau sy'n gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, a all atal pobl anabl rhag cymryd rhan a chael eu cynnwys ym mhob rhan o fywyd. Er mwyn helpu i roi egwyddorion y confensiwn ar waith, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol, sy'n nodi ei hamcanion cydraddoldeb a'r camau gweithredu er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.[12] Mae *Rheoli Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn ac yn helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi rhagor o annibyniaeth, dewis a rheolaeth i bobl anabl.

# 1.1
# Egwyddorion Cadwraeth

**Caiff adeiladau rhestredig eu diogelu nid yn unig er budd yr adeiladau eu hunain ond er ein budd ni ac er budd y cenedlaethau a fydd yn ein holynu. Maent yn rhan annatod o'n hunaniaeth ddiwylliannol ac yn cyfrannu at ymdeimlad cadarn o le, boed mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol neu genedlaethol. Maent yn unigryw, ond weithiau mae angen eu haddasu er mwyn diwallu anghenion cyfnewidiol y sawl sy'n eu defnyddio. Er mwyn i'r rhan fwyaf o adeiladau rhestredig oroesi, mae angen parhau i'w defnyddio a hynny mewn ffordd hyfyw, ac er mwyn sicrhau hyn, gall fod angen, ymhlith pethau eraill, addasiadau er mwyn gwella mynediad.**

Bydd gwaith addasu sensitif yn ystyried y nodweddion sy'n gwneud adeilad penodol yn arbennig neu'n arwyddocaol. Gall ei arwyddocâd ddeillio o'i nodweddion ffisegol arbennig, o'i gynllun ac i ba raddau y mae'n gyflawn, o'r deunyddiau a'r dulliau a ddefnyddiwyd i'w adeiladu, neu o'i gysylltiad â phersonoliaethau a digwyddiadau penodol. Gall arwyddocâd hefyd ddeillio o'r olion archaeolegol sydd wedi goroesi yng nghudd yn y ddaear islaw. Mae deall arwyddocâd adeilad yn gam cyntaf hollbwysig wrth ystyried i ba raddau y gellir ei newid.

Yn y rhan fwyaf o achosion, gellir gwella mynediad heb gael effaith andwyol ar ddiddordeb arbennig adeiladau rhestredig. Anaml iawn na ellir gwneud dim byd i wella na hwyluso mynediad. Drwy ymgymryd â phroses ofalus o waith ymchwil, llunio briff, ymgynghori ac archwilio dewisiadau amgen mewn ffordd greadigol, fel arfer gellir dod o hyd i ddatrysiadau o ansawdd da sy'n ychwanegu haen newydd o hanes i'n hadeiladau rhestredig.

Mae *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*[13] Cadw yn nodi dull gweithredu cyson mewn perthynas â gwneud penderfyniadau am bob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae'n dangos hefyd sut y gellir cysoni'r broses o'i warchod ag anghenion economaidd a chymdeithasol a dyheadau'r bobl sy'n byw ynddo. Mae'r *Egwyddorion Cadwraeth* yn gydnaws â *Polisi Cynllunio Cymru*,[14] sy'n nodi polisïau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru i Gymru. Mae'r egwyddorion hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy ac yn cynnig strategaethau ar gyfer gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol. Gall darparu mynediad hawdd fod yn rhan bwysig o ddull cynaliadwy o ofalu am yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r *Egwyddorion Cadwraeth* yn dangos sut y gellir gwella mynediad heb gael effaith andwyol ar arwyddocâd lleoedd arbennig.

**Eglwys Gloddaeth, Llandudno**

Mae cyfraniad amlwg Eglwys Gloddaeth i drefwedd Llandudno yn adlewyrchu'r lle pwysig sydd iddi ym mywyd y dref. Mae'n bwysig bod mynediad ar gael i bawb. Pan ailwampiwyd yr adeilad yn 2017, aed ati hefyd i wella'r trefniadau mynediad i'r eglwys a'r neuadd gyfagos. Mae ramp yn swatio y tu ôl i'r wal derfyn bresennol, ac mae'r rheiliau arno'n rhai tryloyw er mwyn lleihau eu heffaith weledol. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



## 1.2
## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[15] yn anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Mae'n cyflwyno saith nod llesiant, gan gynnwys Cymru sy'n fwy cyfartal, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer helpu i greu Cymru sy'n addas ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Mae'r ddeddfwriaeth arloesol hon yn golygu bod yn rhaid i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu polisïau a chynlluniau sy'n gyson â'r uchelgais hwn, gan gydnabod bod cydraddoldeb yn un o'r hawliau dynol sylfaenol.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 (UNCRC)[16] yn sail i bob polisi mae'n ei lunio ar gyfer plant a phobl ifanc. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011,[17] mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi'r sylw dyledus i CCUHP wrth iddynt arfer eu swyddogaethau.

Mae erthygl 31 o CCUHP yn dweud ei bod yn 'Rhaid i Bartïon Gwladwriaethau barchu a hybu hawl y plentyn i gymryd rhan lawn mewn bywyd diwylliannol a chelfyddydol a rhaid iddynt hyrwyddo'r broses o ddarparu cyfleoedd priodol a chyfartal ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol ac adloniadol a gweithgareddau hamdden'. Mae erthygl 23 yn dweud y 'dylai plentyn sydd ag anabledd meddyliol neu gorfforol fwynhau bywyd llawn a gweddus, mewn amodau sy'n sicrhau urddas, yn hybu hunanddibyniaeth ac yn hwyluso cyfranogiad gweithredol y plentyn yn y gymuned'.

Felly, bydd trefniadau mynediad o ansawdd uchel, sy'n diwallu anghenion penodol plant ac yn eu trin fel 'pobl', yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau bod plant yng Nghymru yn gallu mwynhau eu hawliau dynol, gan gynnwys yr hawl i gymryd rhan mewn bywyd diwylliannol a chelfyddydol yn ddirwystr. Mae pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant gael eu cynnwys mewn materion sy'n effeithio arnynt yn cael ei gydnabod hefyd; felly, pryd bynnag y bydd cyfleoedd i gydweithio ac ymgynghori, dylid cynnwys plant a phobl ifanc.

## 1.3
## Cydraddoldeb

**Mae Deddf Cydraddoldeb,[18] y dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru[19] a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[20] yn darparu fframwaith cyfreithiol i ddiogelu hawliau unigolion a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Cyfeirir at y categorïau hyn fel 'nodweddion gwarchodedig'. Mae'r Ddeddf yn nodi'r gwahanol ffyrdd o drin rhywun sy'n anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, aflonyddwch, erledigaeth a methu â gwneud addasiad rhesymol i berson anabl.**

Mae angen i bobl a sefydliadau sy'n berchen ar adeiladau rhestredig yng Nghymru neu sy'n eu rheoli neu'n eu meddiannu — ac y mae ganddynt ddyletswyddau o dan ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau, cyflogwyr, addysg neu o dan ddarpariaethau eraill y Ddeddf — sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion gwarchodedig, a'u bod yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb a bod pawb yn cael yr un cyfle i gyfranogi. Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn berthnasol i grwpiau gwirfoddol sy'n gofalu am adeiladau (megis mannau addoli) lle mae gwasanaeth ar gyfer y cyhoedd yn cael ei ddarparu. Wrth ystyried mynediad ffisegol i adeiladau rhestredig a'r ardaloedd cyfagos, rhaid ystyried dyletswyddau sy'n ymwneud â phobl anabl ac ystyried rhwystrau posibl i fynediad. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymwneud â phobl yn hytrach nag adeiladau. Nid yw'n cynnwys safonau ar gyfer dylunio adeiladau hygyrch, er bod safonau gofynnol yn cael eu hamlinellu yn BS 8300: *Design of an Accessible and Inclusive Built Environment*[21] a *Dogfen Gymeradwy M o'r Rheoliadau Adeiladu*,[22] a all helpu deiliaid y ddyletswydd i ddarparu safon resymol o fynediad er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

### 1.3.1 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus,[23] sy'n cynnwys dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol wedi'i hategu gan ddyletswyddau penodol i Gymru,[24] yn berthnasol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru fel y'u rhestrir yn y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau allweddol megis awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau iechyd, trafnidiaeth ac addysg. Rhaid i'r cyrff hynny roi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu achosion o wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddwch ac erledigaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng gwahanol grwpiau. Mae'r ddyletswydd hon yn annog cyrff i ystyried mynediad ffisegol i bobl anabl ac i wneud addasiadau priodol.

### 1.3.2 Cyflogwyr

Mae dyletswydd ar bob cyflogwr, bach a mawr, i wneud addasiadau rhesymol er mwyn osgoi unrhyw anfantais sylweddol i gyflogeion anabl. Nid yw'r ddyletswydd i wneud y newidiadau hyn yn rhagweledol, ond mewn ymateb i anghenion unigolyn anabl penodol. Fodd bynnag, gall fod yn fwy costeffeithiol ystyried gwelliannau mynediad fel rhan o raglen adnewyddu arfaethedig, gan felly olygu y gellir cyflogi pobl anabl yn y dyfodol heb fod angen gwneud unrhyw addasiadau pellach.

### 1.3.3 Darparwyr Gwasanaethau

Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gymryd camau cadarnhaol i sicrhau y gall pobl anabl gael gafael ar wasanaethau o safon sydd mor agos â phosibl at y safon a gynigir i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'n bosibl y bydd y ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau wneud addasiadau rhesymol i unrhyw nodweddion ffisegol, gan gynnwys dodrefn ac arddangosiadau, lle bynnag y byddai cwsmeriaid anabl neu ddarpar gwsmeriaid o dan anfantais sylweddol fel arall o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl.

Yn wahanol i'r ddyletswydd ar gyflogwyr, mae'r ddyletswydd hon yn rhagweledol; mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau ragweld anghenion pobl anabl a'u diwallu mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol hefyd yn ddyletswydd barhaus a bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau adolygu'r newidiadau a wnaed ganddynt yn rheolaidd.

### 1.3.4 Gwirfoddolwyr

Mae'n bosibl y caiff gwirfoddolwyr hefyd eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Os bydd gan wirfoddolwyr gontract a'u bod yn cael mwy na dim ond treuliau uniongyrchol, yna mae'n bosibl y cânt eu trin fel cyflogeion. Mae'n bosibl y caiff gwirfoddolwyr eraill hefyd eu diogelu gan fod canllawiau yn datgan bod cynnig cyfle gwirfoddoli i rywun yn gyfwerth â darparu gwasanaeth iddynt ac fel y cyfryw, mae'r dyletswyddau ar gyfer darparwyr gwasanaethau yn berthnasol.

### 1.3.5 Sefydliadau Addysgol

Mae dyletswydd ar sefydliadau addysgol ôl-16 i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr anabl, gan gynnwys addasiadau i nodweddion ffisegol. Mae'r ddyletswydd hon yn debyg i'r ddyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau ac unwaith eto, mae'n rhagweledol.

Lle y defnyddir adeiladau addysgol ar gyfer cynadleddau, gwleddau ac at ddibenion anaddysgol eraill, mae hyn yn debygol o gynnwys dyletswyddau darparwyr gwasanaethau.

Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn disodli deddfwriaeth arall megis deddfwriaeth adeiladau rhestredig neu ddeddfwriaeth gynllunio, ac mae'r angen i gael cymeradwyaethau priodol yn berthnasol o hyd ar gyfer newidiadau a wneir er mwyn gwella mynediad.

**Sinema’r Palace, Rhisga**

Roedd Sinema’r Palace yn Rhisga wedi bod ynghau ers sawl blwyddyn pan gafodd fywyd newydd fel llyfrgell a chanolfan gwasanaethau i gwsmeriaid yn 2011. Darparwyd mynediad gwastad drwy hen siop gerllaw’r sinema, gan olygu nad oedd angen newid ffasâd trawiadol y sinema; ac adeiladwyd palmant twmpathog, gan olygu nad oedd angen gris. Y tu mewn, mae’r llyfrgell yn cynnig cyfleusterau cyfrifiadurol sydd ar gael yn hwylus i bawb, gan gynnwys gweithfannau a chadeiriau y gellir eu haddasu, bysellfyrddau mawr, llygod â pheli llwybro, a meddalwedd sy’n hwyluso mynediad. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



# 2–
# Y Fframwaith Rheoleiddio

**Dylid rhoi blaenoriaeth bob amser i wella hygyrchedd, lle y bo'n ymarferol bosibl, ond ni ddylid gwneud hynny ar draul cymeriad adeilad rhestredig nac ychwaith os bydd hynny yn cynyddu'r risg y bydd ffabrig neu addurniadau'r adeilad yn dirywio yn yr hirdymor. Mae hyn yn golygu y dylid datblygu cynigion creadigol wedi'u hystyried yn ofalus wrth gynllunio newidiadau er mwyn sicrhau bod adeiladau rhestredig mor hygyrch â phosibl.**

Er mwyn dod o hyd i'r datrysiadau gorau, argymhellir y dylid ymgynghori â swyddogion cadwraeth a mynediad cyn ymgeisio, ac y dylid hefyd ystyried safbwyntiau Cadw a grwpiau mynediad lleol.

## 2.1
## Caniatâd Cynllunio

**Defnyddir y system gynllunio i reoli'r broses o ddatblygu tir ac adeiladau; fe'i gweinyddir gan awdurdodau cynllunio. Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o waith sy'n gwneud addasiadau sylweddol i ymddangosiad allanol adeilad. Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o newidiadau i'r defnydd a wneir o adeilad hefyd.**

Rhaid cyflwyno datganiad dylunio a mynediad gyda chais cynllunio ar gyfer datblygiad mawr ac ar gyfer rhai mathau penodol o gynigion o fewn Safle Treftadaeth y Byd neu ardal gadwraeth.[25] Mae'r datganiad dylunio a mynediad yn nodi'r egwyddorion dylunio a gymhwyswyd at y cynnig ac yn disgrifio sut y bwriedir cyflawni mynediad cynhwysol. Mae angen i'r datganiad gyfeirio'n benodol at anghenion pobl anabl a gellir ei ddefnyddio i egluro unrhyw addasiadau rhesymol arfaethedig i nodweddion ffisegol yr adeilad.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganiadau dylunio a mynediad yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, *Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru*.[26]

## 2.2
# Rheoliadau Adeiladu 2010: Dogfen Gymeradwy M i'w Defnyddio yng Nghymru

**Mae a wnelo Rhan M[27] o'r Rheoliadau Adeiladu â mynediad i adeiladau a'r defnydd ohonynt. Mae'n berthnasol i addasiadau sylweddol ac estyniadau i adeiladau annomestig ac i newidiadau sylweddol i rai defnyddiau annomestig. Mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol gwneud darpariaeth resymol i bobl gael mynediad i'r adeilad a defnyddio ei gyfleusterau. Mae Dogfen Gymeradwy M yn rhoi arweiniad ar fodloni'r rheoliad ac yn nodi'r safonau gofynnol ar gyfer mynediad.**

Cydnabyddir yr angen i ddiogelu nodweddion arbennig adeiladau rhestredig yn Nogfen Gymeradwy M. Mae'n cydnabod hefyd y gall fod rhai achosion lle y bydd angen gwyro oddi ar y canllawiau ac yn argymell y dylid egluro'r achosion hyn mewn datganiad mynediad. Rhaid cynnwys datganiad mynediad ffurfiol mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ar gyfer rhai ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig (gweler adran 2.3).

Gall dilyn y canllawiau yn Nogfen Gymeradwy M fod yn ffordd ddefnyddiol o nodi darpariaeth resymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, ni fydd methu â bodloni'r canllawiau o reidrwydd yn awgrymu achos o wahaniaethu, oherwydd gellir cyflawni'r un canlyniad terfynol mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r dull gweithredu hwn yn unol â'r egwyddorion sy'n sail i'r broses o ddiogelu adeiladau rhestredig, yn yr ystyr y gall hwyluso mynediad mewn ffyrdd sy'n osgoi cael gwared ar y nodweddion hynny o adeilad sy'n cyfrannu at ei arwyddocâd, ac felly at y rhesymau dros ei restru.[28]

**BS 8300-1: 2018** *Design of an Accessible and Inclusive Built Environment. Part 1: External Environment — Code of Practice*

**BS 8300-2: 2018** *Design of an Accessible and Inclusive Built Environment. Part 2: Buildings — Code of Practice*

**Mae BS 8300 yn darparu arweiniad ar arfer da wrth ddylunio adeiladau a'r dulliau gweithredu cysylltiedig er mwyn i bobl anabl allu eu defnyddio'n hwylus. Pennir i ba raddau y mae'r safonau yn berthnasol i adeiladau rhestredig ar sail unigol. Dylid nodi bod yr arweiniad ar rai agweddau penodol yn BS 8300 yn wahanol i'r arweiniad yn Nogfen Gymeradwy M.**

## 2.3
# Cydsyniad Adeilad Rhestredig

**O dan delerau Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990,[29] mae angen cydsyniad ar gyfer unrhyw waith dymchwel, addasu a/neu estyn a fydd yn effeithio ar gymeriad adeilad rhestredig, gan gynnwys unrhyw strwythurau ac addurniadau cysylltiedig o fewn ei gwrtil. Mae deddfwriaeth adeiladau rhestredig yn berthnasol i newidiadau mewnol ac allanol, ni waeth p'un a gaiff nodweddion eu nodi ar wahân yn y disgrifiad ar y rhestr ai peidio. Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gweinyddu'r system cydsyniad adeilad rhestredig a dylid gofyn am gyngor ganddynt o ran p'un a oes angen cydsyniad ar gam cynnar yn ystod y broses ddylunio.**

Wrth wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig, rhaid cynnwys datganiad o'r effaith ar dreftadaeth, sef canlyniad asesiad o'r effaith ar dreftadaeth, gyda cheisiadau.[30] Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am arwyddocâd pensaernïol a hanesyddol yr adeilad ac asesu effaith debygol y newidiadau arfaethedig.

Rhaid i'r cais ddangos pam bod angen unrhyw waith a allai achosi difrod posibl, neu pam bod gwaith o'r fath yn ddymunol, gan felly gadarnhau cydbwysedd priodol rhwng cadwraeth a newid.

Rhaid cynnwys datganiad ffurfiol ar fynediad mewn datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth ar gyfer unrhyw waith arfaethedig sy'n effeithio ar y trefniadau mynediad i adeilad rhestredig nas defnyddir fel annedd breifat neu unrhyw ran o adeilad o'r fath. Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gallu rhoi cyngor o ran p'un a oes angen datganiad mynediad ai peidio, ond hyd yn oed os nad yw'n orfodol, dylid ystyried mynediad fel rhan o'r asesiad o'r effaith ar dreftadaeth.

Mae asesiad o'r effaith ar dreftadaeth yn adnodd defnyddiol i lywio cynlluniau mynediad a ddisgrifir yn fanylach yn adran 3.1.

**Cwrt Insole, Caerdydd**

Mae prosiect cymunedol uchelgeisiol sydd wedi cael cyllid o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn rhoi bywyd newydd i Gwrt Insole yng Nghaerdydd. Erbyn hyn, mae iard stablau'r plasty, a oedd yn adfail, yn gartref i nifer o gyfleusterau, gan gynnwys caffi, a chynhelir digwyddiadau cymunedol, corfforaethol a phreifat yno. Mae'r deunyddiau a ddewiswyd ar gyfer y ramp mynediad helaeth yn helpu i ychwanegu at gymeriad yr adeilad hanesyddol yn lle amharu arno. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



## Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth: Datganiad Mynediad

**Dylai datganiad mynediad ystyried pob opsiwn amgen ymarferol fel rhan o'r asesiad o'r effaith ar dreftadaeth er mwyn nodi'r opsiwn sy'n darparu mynediad rhesymol orau ac sy'n cael yr effaith andwyol leiaf ar arwyddocâd yr adeilad rhestredig. Bydd angen i'r datganiad mynediad nodi'n glir sut mae'r dull gweithredu mewn perthynas â dylunio cynhwysol wedi cydbwyso unrhyw ddyletswyddau sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ag arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol yr adeilad rhestredig.**

**Dylai ddangos bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i ddarparu mynediad llawn, ond gan gydnabod ar yr un pryd y gall arwyddocâd yr adeilad rhestredig weithiau gyfyngu ar yr opsiynau ar gyfer gwneud hynny. Dylai'r datganiad gofnodi unrhyw faterion penodol, gan gynnwys unrhyw achos o wyro oddi ar y canllawiau a nodir yn Nogfen Gymeradwy M, a'r amrywiaeth o opsiynau a ystyriwyd. Os nad yw'r cynllun yn gwbl gynhwysol, dylai'r datganiad egluro pam nad yw hyn yn bosibl.**

**Os yw cymeriad hanesyddol yr adeilad rhestredig yn golygu na ellir ei addasu mewn ffordd a fyddai'n cyrraedd y lefelau gofynnol o ran hygyrchedd, gellid nodi ymaddasiadau neu weithdrefnau eraill i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddefnyddio cyfarpar cludadwy neu newidiadau i arferion rheoli.**

**I'r gwrthwyneb, efallai y bydd amgylchiadau lle y gellir cyfiawnhau newidiadau ar y sail y byddai gwaith dylunio cynhwysol yn golygu y gellid defnyddio'r adeilad rhestredig mewn ffordd fuddiol.**

**Yn y bôn, mae datganiad mynediad yn ffordd o ddangos y gwnaed pob ymdrech i ddarparu amgylchedd cynhwysol ac ni ddylid ei ddefnyddio i gyfiawnhau safonau is o ran darparu mynediad.**

Mae adrannau 3 a 4 o'r canllawiau arfer gorau hyn yn cynnig cyngor defnyddiol am ddylunio cynhwysol. Gellir dod o hyd i ateb boddhaol bron bob amser ar yr amod y caiff dulliau gweithredu llawn dychymyg ac arloesol eu hystyried yn llawn.

Mae'n bosibl hefyd y bydd angen gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer mesurau mynediad dros dro, gan gynnwys y rhai a wneir cyn mabwysiadu datrysiadau parhaol, os bydd y mesurau hyn yn effeithio ar gymeriad yr adeilad. Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn rhoi cyngor o ran p'un a oes angen cydsyniad. Nid oes angen cydsyniad ar gyfer rampiau cludadwy nad ydynt wedi'u gosod yn barhaol ac a gaiff eu symud ar ôl eu defnyddio.

Ceir rhagor o wybodaeth am gydsyniad adeilad rhestredig, datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth a datganiadau mynediad yn *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*[31] ac *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*.[32]

## 2.4
# Yr Esemptiad Eglwysig

**Caiff rhai enwadau eu heithrio rhag yr angen i gael cydsyniad adeilad rhestredig, a hynny am fod gweithdrefnau cydsyniad ar waith ganddynt a dderbyniwyd gan Weinidogion Cymru fel gweithdrefnau sy'n cynnig lefel briodol o ddiogelwch ar gyfer eu hadeiladau rhestredig, sy'n gyfwerth o leiaf â'r lefel o ddiogelwch yn y system seciwlar.**[33] Bydd yr enwadau hyn yn rhoi cyngor ynghylch yr angen am gydsyniad drwy eu gweithdrefnau eu hunain.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr egwyddorion a'r arferion ar gyfer gwneud newidiadau i addoldai rhestredig yn *Rheoli Newid i Fannau Addoli Hanesyddol yng Nghymru: Esemptiad Eglwysig*.[34]


Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r egwyddorion mynediad a ddisgrifir yma yr un mor berthnasol i adeiladau rhestredig sydd wedi'u heithrio o dan yr esemptiad eglwysig ag y maent i bob adeilad arall. Mae'r rhan fwyaf o enwadau sy'n cael eu heithrio yn cyflogi neu'n gallu cyfeirio at gynghorwyr ar anabledd a all gynnig cymorth arbenigol.

### Eglwys y Santes Fair, Dolgellau

Llwyddwyd i wella mynediad i Eglwys y Santes Fair yn Nolgellau drwy gyfres o ymyriadau. Gellir defnyddio lifft risiau i gyrraedd ystafell yn yr oriel uchaf, ac mae ramp bach ar y stepen i fyny i'r gangell. Crëwyd mannau agored sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwynion drwy dynnu rhai o'r corau, ac mae map yng nghyntedd yr eglwys yn dangos lle maent ac yn mapio llinellau gweld. Mae'r camau cymharol syml hyn wedi bod yn effeithiol, ac mae gan yr eglwys enw da am ddarparu mynediad i bawb. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru







## 2.5
## Cydsyniad Heneb Gofrestredig

**Yn ogystal â chael eu rhestru, mae'n bosibl y bydd rhai adeiladau rhestredig a'r ardaloedd cyfagos wedi'u diogelu fel henebion cofrestredig o dan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.[35] Mae angen cydsyniad ar gyfer unrhyw waith i safle archaeolegol neu adeilad a ddynodwyd yn heneb gofrestredig. Pan fydd adeilad rhestredig hefyd yn heneb gofrestredig, dim ond cydsyniad heneb gofrestredig fydd ei angen. Cadw sy'n ymdrin â cheisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig.**

Ceir rhagor o wybodaeth am gydsyniad heneb gofrestredig yn *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru.*[36]

## 2.6
## Parciau a Gerddi Hanesyddol

**Gall y parciau a'r gerddi hanesyddol sy'n gysylltiedig ag adeiladau rhestredig hefyd fod o ddiddordeb hanesyddol arbennig yn eu rhinwedd eu hunain ac mae'n bosibl y byddant wedi'u cynnwys ar gofrestr Cadw o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Mae'r gofrestr yn cynnwys amrywiaeth helaeth o safleoedd, gan gynnwys gerddi, mynwentydd a pharciau. Os oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw gynigion a fyddai'n effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, neu eu lleoliadau, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â Cadw a gall hefyd ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru.**

Ceir rhagor o wybodaeth am barciau a gerddi hanesyddol yn *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru.*[37]

### Sut i edrych am restriadau a dynodiadau eraill

Mae Cof Cymru, sef cronfa ddata ar-lein Cadw o asedau hanesyddol dynodedig Cymru (https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru) yn darparu gwybodaeth gyfredol am:

— adeiladau rhestredig

— henebion cofrestredig

— safleoedd llongddrylliadau wedi'u diogelu

— parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig

— Safleoedd Treftadaeth y Byd.

.

# 3–
# Cynllunio Gwell Mynediad

## 3.1
## Beth sy'n Rhesymol?



**Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau i wneud 'addasiadau rhesymol' i sicrhau nad yw pobl anabl yn dioddef anfantais pan fyddant yn ymweld ag adeilad. Gellir gwneud addasiadau drwy newid y ffordd y gwneir pethau, drwy newid yr adeilad ei hun neu drwy ddarparu cymhorthion a gwasanaethau ychwanegol. Bydd diffiniad 'addasiadau rhesymol' yn dod i'r amlwg o ganlyniad i ddealltwriaeth glir o anghenion mynediad a nodweddion yr adeilad. Mae strategaeth fynediad yn ffordd strwythuredig o wneud hyn, ac mae'n helpu i bennu'r cyfeiriad ar gyfer cynllunio newidiadau.**

**Institiwt y Gweithwyr Pyllau Glo Celynen**

Cafodd Institiwt y Gweithwyr Pyllau Glo Celynen ei adeiladu ym 1908, ac ychwanegwyd y Neuadd Goffa ym 1924. Agorodd y Neuadd ei drysau unwaith eto yn 2014 ar ôl iddi gael ei hadnewyddu'n llwyr a'i throi'n fan lle gellir cynnal digwyddiadau. Erbyn hyn, mae'r institiwt yn ganolfan adnoddau. Mae'r fynedfa i'r ddau adeilad mewn estyniad sy'n cysylltu'r ddau le. Wrth ddylunio'r ramp mynediad, aed ati'n ofalus i sicrhau bod y gwaith maen arno yn cyd-fynd â phlinth gwreiddiol yr adeilad, ac mae'r canllaw tryloyw yn lleihau'i effaith weledol.© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



### 3.1.1 Y Strategaeth a'r Cynllun Mynediad

Cynghorir unrhyw sefydliad, boed yn fanwerthwr ar y stryd fawr, yn amgueddfa, bwyty neu fan addoli, sydd am ei gwneud hi'n haws i bawb ddefnyddio ei adeilad rhestredig yn gryf i ddechrau drwy lunio strategaeth a chynllun mynediad — dogfen sy'n ateb chwe chwestiwn sylfaenol:

— Beth mae angen ei wella — ai'r adeilad ei hun, y ffordd y caiff ei reoli neu gyfuniad o'r ddau?

— Pa rwymedigaethau statudol y mae angen eu bodloni?

— Pa ystyriaethau cadwraeth y mae angen eu hystyried?

— Pwy fydd yn gyfrifol am bwyso a mesur y gofynion hyn?

— Beth yw addasiad rhesymol?

— Faint fydd yn ei gostio a faint o amser y bydd yn ei gymryd?

Y gyfrinach o ran sicrhau strategaeth lwyddiannus yw eglurder — sicrhau bod anghenion ymwelwyr a defnyddwyr wedi'u deall llawn cystal â sensitifrwyddau'r adeilad a fydd yn darparu ar eu cyfer. Drwy gynllunio'n ofalus, dylai fod modd rhoi mynediad addas i bobl anabl heb gael effaith andwyol ar ddiddordeb arbennig adeilad.

Mae ymrwymiad strategol o frig y sefydliad yn elfen hanfodol arall, a hefyd bresenoldeb rhywun a fydd yn gyfrifol am roi'r mesurau a nodwyd fel rhan o'r broses cynllunio mynediad ar waith a'u hadolygu.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl o ran y ffordd y maent yn darparu eu gwasanaethau. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn dynodi sut y dylai darparwr gwasanaeth fwrw ati i gyflawni ei rwymedigaethau; cyfrifoldeb y darparwr yw penderfynu p'un a oes angen iddo wneud addasiadau ffisegol i nodwedd rwystrol neu a all ddod o hyd i ffordd o'i hosgoi drwy ddarparu'r un gwasanaeth mewn ffordd amgen.

Nid oes angen cael gwared ar rwystr bob amser. Mewn sawl achos, gellir cyflawni'r un canlyniad dymunol drwy ddarparu llwybrau amgen neu ad-drefnu'r defnydd o ofod, heb fod angen unrhyw addasiadau ffisegol. Er mwyn osgoi gwneud y penderfyniadau anghywir, ni ddylai sefydliadau na gweithwyr proffesiynol fyth ymgymryd â gwaith mynediad heb ddeall yn gyntaf pa ddatrysiadau fyddai'n well gan y bobl anabl eu hunain. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol cynnwys pobl anabl yn ystod pob cam o ddatblygu unrhyw brosiect.

### 3.1.2 Yr Archwiliad Mynediad

Y cam cyntaf wrth gynllunio gwelliannau mynediad yw cynnal archwiliad mynediad. Bydd yr archwiliad hwn yn asesu ac yn dogfennu'r rhwystrau i fynediad sy'n bodoli mewn adeilad ac yn yr ardal gyfagos. Bydd archwiliad da yn ystyried gofynion defnyddwyr cadair olwyn, pobl anabl sy'n gallu cerdded a'r rheini â namau synhwyraidd neu wybyddol. Bydd yn ystyried mynediad deallusol yn ogystal â mynediad ffisegol a gall ystyried anghenion teuluoedd â phlant ifanc a phobl hŷn.

Mae'n ddefnyddiol cynnal yr archwiliad gan ddilyn trefn taith ymwelwyr drwy'r adeilad — o gyrraedd ar droed, mewn car neu gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, drwy ddod i mewn i'r adeilad, mynediad i bob un o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir, ac yn olaf, y llwybr ymadael. Gall archwiliad hefyd ystyried sut y byddai pobl yn cael cymorth i adael yr adeilad mewn argyfwng.

Diben yr archwiliad yw cymharu'r sefyllfa bresennol â chanllawiau arfer gorau, a thrwy hynny helpu i nodi unrhyw rwystrau i fynediad a all godi. Bydd yr archwilydd yn gwneud argymhellion o ran ffyrdd posibl o wella mynediad, gan ystyried y defnydd a wneir o'r adeilad a natur yr adeilad. Argymhellir y dylai rhywun â phrofiad o asesu materion mynediad gynnal yr archwiliad. Gellid cyfeirio at y Gofrestr Genedlaethol o Ymgynghorwyr Mynediad.[38]

Mae'n hanfodol cynnwys pobl anabl yn y broses archwilio er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu llawn ddeall mor fuan ag y bo modd.

**Eglwys Sant Francis Xavier, Brynbuga**

Cafodd prosiect mawr i adnewyddu Eglwys Gatholig Sant Francis Xavier a Sant David Lewis ym Mrynbuga ei gwblhau yn 2019 gan ddefnyddio cyllid a gafwyd drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac eraill. Roedd y prosiect yn cynnwys gwaith cadwraeth helaeth ar yr adeilad, datblygu adnoddau addysgol ac adnoddau ar gyfer ymwelwyr, creu capel wedi'i gysegru i Sant David Lewis ar lawr uchaf nad oedd yn cael ei ddefnyddio ddigon, a darparu mynediad llawn i gyfleusterau ar y llawr daear. Darperir mynediad drwy wyneb dwyreiniol y cyntedd, lle mae yno ramp 1:21. Er bod yr ymyriad hwn yn un eithaf radical, nid yw'n amharu ar gymeriad cryf yr adeilad ac mae ef, yn ogystal â'r toiledau newydd y tu mewn, yn helpu i sicrhau bod defnydd ehangach o lawer yn cael ei wneud o'r eglwys. © Archesgobaeth Caerdydd; VoluteArchitects





## Llunio Cynllun Mynediad

### 1. Meddwl yn Strategol

Pennu amcanion gan gynnwys sut i ddarparu mynediad hawdd ar gyfer defnyddwyr heb amharu ar arwyddocâd a chymeriad yr adeilad.

Nodi defnyddwyr gan gynnwys pobl anabl, pobl hŷn, plant, pobl ifanc a theuluoedd, a phobl â nodweddion gwarchodedig.

Ystyried yr adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys y gyllideb.

↓

### 2. Deall Cyfleoedd ar gyfer Newid

**Archwiliad mynediad** — wedi'i gwblhau gyda grwpiau anabledd, yn ddelfrydol gan arbenigwr mynediad

Beth yw'r sefyllfa bresennol?
Beth fyddai'n cael ei hystyried yn arfer da? (cyfeiriwch at y canllawiau)
Gwneud argymhellion

**Asesiad treftadaeth** — yn ddelfrydol wedi'i gynnal gan arbenigwr cadwraeth

Nodi a disgrifio nodweddion yr adeilad sydd o ddiddordeb arbennig o ran pensaernïaeth, hanes ac archaeoleg ac arwyddocâd ei rannau cyfansoddol

↓

### 3. Nodi a Phrofi Opsiynau ar gyfer Newid

**Llunio cynllun mynediad drafft**

Nodi opsiynau ar gyfer gwella mynediad mewn cydweithrediad â grwpiau o ddefnyddwyr

Ymgynghori â swyddogion cynllunio a chadwraeth awdurdodau lleol (neu gynghorwyr enwadol lle mae esemptiad eglwysig yn berthnasol), cyrff cadwraeth neu sefydliadau arbenigol perthnasol eraill

Profi opsiynau drwy gynnal asesiad o'r effaith ar dreftadaeth

Profi fforddiadwyedd yn erbyn y gyllideb

A yw'r addasiadau arfaethedig yn rhesymol?

↓

### 4. Datblygu Cynigion Penodol

**Datblygu cynigion**

Datblygu cynllun lle yr argymhellir addasiadau ffisegol – cyfiawnhau peidio â dilyn Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu lle bydd angen

A oes angen cydsyniadau? A oes angen datganiad o'r effaith ar dreftadaeth heb neu gyda datganiad mynediad? Os oes angen caniatâd cynllunio, oes angen datganiad dylunio a mynediad?

↓

### 5. Llunio fersiwn derfynol o'r Cynllun Mynediad

**Y cynllun mynediad**

Amlinellu amrediad o atebion, o addasiadau ffisegol i newidiadau gweithredol

Gweithredu fesul cam yn unol ag anghenion mynediad, y strategaeth tymor hir a'r gyllideb

Adolygu yn rheolaidd mewn perthynas â'r strategaeth fynediad

### 3.1.3 Yr Asesiad o Arwyddocâd

Fel rhan ategol o'r broses, bydd angen paratoi asesiad treftadaeth sy'n cadarnhau arwyddocâd yr adeilad rhestredig a'r rhannau unigol ohono o ran ei ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol neu archaeolegol arbennig. Rhaid i'r asesiad gael ei baratoi gan rywun sy'n deall yr adeilad ac yn meddu ar yr wybodaeth briodol, fel hanesydd pensaernïol neu bensaer. Gall cymdeithasau amwynder, ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru ac awdurdodau lleol hefyd gynnig arweiniad yn hyn o beth. Gellir defnyddio'r asesiad treftadaeth hefyd fel datganiad o arwyddocâd yn y broses o asesu'r effaith ar dreftadaeth.

### 3.1.4 Y Cynllun Mynediad

Unwaith y bydd archwiliad mynediad ac asesiad arwyddocâd wedi'u cwblhau, gellir paratoi cynllun mynediad manwl sy'n cysoni anghenion mynediad a chadwraeth, lle bo angen. Bydd y cynllun yn ystyried yr opsiynau ar gyfer gwella, yn nodi anghenion ac effeithiau ac yn ystyried addasiadau rhesymol tebygol. Dylai'r cam hwn o'r broses gynnwys trefniadau i ymgynghori nid yn unig â chyrff mynediad a chadwraeth ond â'r bobl anabl eu hunain.

**Dylai cynllun mynediad, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, anelu at ddarparu mynediad o'r un safon i bobl anabl â'r safon a gynigir i weddill y cyhoedd.**

Fel arfer, bydd gan y cynllun mynediad bedwar amcan cysylltiedig:

— pennu nodau byrdymor a hirdymor mewn perthynas â chyfleoedd

— nodi datrysiadau arfaethedig, gan amrywio o newid y defnydd gweithredol i addasiadau ffisegol, gan gynnwys cydymffurfiaeth â Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu neu achos o wyro oddi wrthi

— nodi cydsyniadau statudol neu gymeradwyaethau eraill sydd eu hangen, megis cydsyniad adeilad rhestredig, gan gynnwys yr angen am ddatganiadau o'r effaith ar dreftadaeth a datganiadau mynediad, a chaniatâd cynllunio, gan gynnwys yr angen am ddatganiad dylunio a mynediad

— yr amserlenni gweithredu arfaethedig.

Mewn perthynas â gweithdrefnau cynnal a chadw a rheoli, gall y cynllun hefyd helpu i sicrhau bod mynediad yn parhau'n flaenoriaeth. Er mwyn bod hyn yn digwydd, dylid adolygu'r cynllun yn rheolaidd a'i ddefnyddio i gofnodi penderfyniadau ac addasiadau i'r cynllun a'r amserlen wreiddiol. Dylai pawb sy'n gysylltiedig â gofalu am yr adeilad neu sy'n gweithio ynddo fod yn ymwybodol o'r cynllun mynediad.

### Rôl y swyddog cadwraeth

Dylai swyddog cadwraeth adeiladau'r awdurdod lleol allu rhoi cyngor arbenigol ar atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau rhestredig, gan gynnwys gwaith addasu. Gall hyn fod yn arbennig o werthfawr os yw'n debygol y bydd angen caniatâd cynllunio neu gydsyniad adeilad rhestredig ar addasiadau i wella mynediad.

Drwy'r gwaith manwl o baratoi'r cynllun mynediad bydd modd cadarnhau p'un a oes angen unrhyw newidiadau i adeilad rhestredig, gan gynnwys yr addasiadau hynny y mae angen cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad heneb gofrestredig a chaniatâd cynllunio ar eu cyfer. Fodd bynnag, dylai'r broses ddechrau drwy ystyried yr holl opsiynau eraill sydd ar gael — gan gynnwys darparu'r gwasanaeth mewn ffordd amgen — ac asesu'r effaith y byddai pob opsiwn yn ei chael ar arwyddocâd yr adeilad. Mewn gwirionedd, mae hyn yn cyfateb i gamau 3 a 4 o asesiad o'r effaith ar dreftadaeth, sy'n nodi newidiadau arfaethedig ac yn asesu eu heffaith debygol ar arwyddocâd yr adeilad, er mwyn penderfynu ar ddull sy'n gwireddu'r manteision mwyaf posibl ac yn peri'r niwed lleiaf posibl.

Os oes unrhyw achos o wrthdaro rhwng buddiannau mynediad a buddiannau cadwraeth, gall fod yn bosibl ei ddatrys drwy waith dylunio creadigol a sensitif. Am resymau ariannol a gweithredol, gall fod angen gwneud gwaith ffisegol yn raddol dros gyfnod o amser, ac os felly, gall fod angen i'r cynllun nodi ffyrdd amgen o ddarparu'r gwasanaeth yn y cyfamser.

Ni ddylid cyfyngu'r cynllun mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae angen iddo hefyd ystyried gofynion pobl â symudedd cyfyngedig, namau synhwyraidd a gwybyddol, ac anghenion teuluoedd â phlant ifanc, pobl ifanc a phobl hŷn. Dylai cynllun wedi'i ddrafftio'n ofalus fod yn greiddiol i ymrwymiad strategol unrhyw sefydliad i wella mynediad. Mae angen ei adolygu'n rheolaidd hefyd er mwyn sicrhau bod y darpariaethau presennol yn gyfredol, nid yn unig o ran newidiadau mewn rheoliadau ond hefyd o ran datrysiadau technegol newydd. Mae dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau i gymryd camau rhesymol i gydymffurfio â'r naill a'r llall.

Gall grwpiau ffocws sy'n cynnwys pobl anabl, neu bobl o grŵp mynediad lleol, fod yn adnodd gwerthfawr wrth brofi cynigion cyn eu cynnwys yn y cynllun mynediad. Gellir defnyddio'r cynllun terfynol hefyd fel sail ar gyfer datganiad o'r effaith ar dreftadaeth, gan gynnwys datganiad mynediad, a datganiad dylunio a mynediad sy'n ofynnol ar gyfer rhai cydsyniadau statudol. Gall hefyd fod yn gofnod defnyddiol o'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### Rôl swyddogion sy'n ystyried mynediad

Fel arfer, mae swyddogion sy'n ystyried mynediad wedi'u lleoli yn adrannau cynllunio a rheoli adeiladu awdurdodau lleol. Eu prif rôl fel arfer fydd rhoi cyngor ar gynigion datblygu mewn perthynas â pholisi cynllunio (p'un a yw'r gofynion ar gyfer caniatâd cynllunio wedi'u bodloni ai peidio) a/neu Ran M o'r Rheoliadau Adeiladu. Fel rhan o'u rôl, gallent hefyd helpu i ddatblygu polisïau mynediad a chanllawiau dylunio, a hwyluso grwpiau mynediad lleol yn cynnwys pobl anabl. Fel y cyfryw, maent yn werthfawr iawn o ran cyngor ymarferol ar welliannau mynediad felly dylid ymgynghori â nhw cyn gynted â phosibl wrth ddatblygu cynllun mynediad.

### 3.1.5 Materion Rheoli

Ni fydd unrhyw gynllun mynediad yn gwbl lwyddiannus oni chaiff ei ategu gan ymrwymiad o frig y sefydliad i gyrraedd safonau arfer da presennol y cytunwyd arnynt neu ragori ar y safonau hynny. Bydd hyfforddiant a chymorth parhaus gan y rheolwyr i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r safonau y cytunwyd arnynt hefyd yn hanfodol. Os caiff deunyddiau glanhau eu storio mewn toiled hygyrch, ni fydd yn parhau'n hygyrch; nid yw desg anniben mewn derbynfa â llwythi o daflenni a hysbysiadau yn cynnig gwybodaeth glir i neb. Mae mynediad da yn dibynnu ar reoli'r gwasanaeth cyfan yn effeithiol — mewn sawl achos, gall newid syml i weithdrefnau ddatrys problem sy'n ymddangos ar yr olwg gyntaf yn anodd i'w datrys.

### 3.1.6 Ariannu Gwelliannau Mynediad

Nid yw Cadw na Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn sefyllfa i ddarparu arian i berchnogion adeiladau hanesyddol er mwyn gwella mynediad. Fodd bynnag, gall Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ariannu gwelliannau mynediad ffisegol a synhwyraidd i adeiladau neu safleoedd hanesyddol (gan gynnwys addoldai) os ydynt yn rhan o brosiect ehangach i atgyweirio'r adeilad neu'r safle a'i agor i'r cyhoedd. Gall Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd ddarparu cymorth grant i gwblhau archwiliad mynediad fel rhan o gam datblygu prosiect.

Mae'n bosibl y bydd ffynonellau cyllid eraill ar gyfer meysydd penodol neu fathau penodol o welliant. Hefyd mae'n bosibl y bydd manteision economaidd anuniongyrchol yn gysylltiedig â gwaith mynediad – er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yn elwa ar gyfraddau TAW is.

## 3.2
## Rhwystrau i Fynediad

### 3.2.1 Goresgyn Rhwystrau

Yn anad dim, nod y broses cynllunio mynediad yw dod o hyd i ffyrdd o oresgyn y rhwystrau y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfeirio atynt — ac yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â rhwystrau ffisegol. Mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wneud pa addasiadau rhesymol bynnag ag sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau na fydd pobl anabl yn wynebu anfantais sylweddol. Gellir rhannu'r rhwystrau posibl yn ddau gategori bras:

— elfennau ffisegol allanol yr adeilad a'i leoliad, gan gynnwys nodweddion o ran y dirwedd, cyrbiau, arwynebau allanol, palmentydd, ardaloedd parcio, mynedfeydd ac allanfeydd adeiladau, yn ogystal â'r llwybrau dianc mewn argyfwng

— unrhyw nodwedd sy'n deillio o'r ffordd y dyluniwyd neu yr adeiladwyd yr adeilad ei hun, gan gynnwys manylion pensaernïol (megis plinthau, gwaelodion colofnau, grisiau, gwaith haearn ac agoriadau drysau), addurniadau, gosodiadau, celfi, dodrefn, cyfarpar a deunyddiau eraill.

Mae'n bwysig sicrhau y caiff pob nodwedd ei deall yn briodol, o ran y nodwedd ei hun ac o ran ei chyd-destun mewn perthynas â'r adeilad cyfan. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau na chaiff nodweddion eu newid ac y byddant yn parhau'n weladwy os ydynt yn cyfrannu at arwyddocâd, cymeriad neu gyfansoddiad yr adeilad. O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y gellir osgoi nodwedd yn hytrach na newid y nodwedd honno er mwyn gwneud addasiad rhesymol.


Bydd y math o wasanaeth neu weithgaredd a gynhelir yn yr adeilad hefyd yn ffactor pwysig wrth bennu'r lefel briodol o fynediad ac i ba raddau y mae angen gwneud addasiadau. Mae ffactorau y mae'n bosibl y byddant yn effeithio ar b'un a ellir ystyried bod addasiad posibl yn rhesymol ai peidio yn cynnwys pa mor effeithiol ac ymarferol fydd y newid, cost y newid, maint sefydliad a'r adnoddau ariannol sydd ar gael.

Dylid ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol i fynediad sy'n deillio o newid defnydd arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r darparwr gwasanaeth neu swyddogaethau addysg yn ofalus er mwyn gallu eu cynnwys yn sensitif fel rhan o'r strwythur presennol.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth**

Saif Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar safle fry uwchben Aberystwyth. Gan fod hwn yn sefydliad cenedlaethol, y nod oedd codi adeilad mawreddog, a'r bwriad, wrth ddylunio'r brif fynedfa, oedd creu effaith ddramatig. Mae'r podiwm uchel ar ben cyfres o risiau yn ganolbwynt cryf i'r adeilad — mae'n rhy uchel i ganiatáu mynediad drwy ramp ac yn rhy ffurfiol i lifft allanol fod yn briodol. Yr ateb oedd addasu mynedfa a oedd eisoes yn bodoli ar y llawr daear a'i dynodi'n brif fynedfa newydd ar gyfer pob ymwelydd. Llwyddwyd i ddarparu mynediad llawn drwy symud y grisiau gwreiddiol ymlaen fel y bo modd i ramp cyfagos gyrraedd man gwastad o flaen y grisiau. Mae arddull y  ramp, a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd ar ei gyfer, yn cyd-fynd â'r adeilad gwreiddiol. Mae pwyslais llorweddol cryf i'r adeilad ei hun, a thrwy ddefnyddio waliau erchwyn llorweddol ar y parapet a chodi rhwystr gwydr ar eu pen, llwyddwyd i sicrhau mai'r canllaw yw'r unig elfen o'r dyluniad sydd ar oleddf. Y tu mewn i'r llyfrgell, mae'r dderbynfa, y toiledau a'r ystafelloedd cotiau i gyd ar lawr gwastad, ac mae lifftiau i bob rhan o'r adeilad. Ymhlith rhai o'r newidiadau eraill a wnaed er mwyn gwella'r profiad i ymwelwyr y mae dolenni sain, a defnyddio lliwiau gwahanol a Braille. © Hawlfraint y Goron (2022), Croeso Cymru / © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru







## Llysoedd Barn Caerdydd

Mae Llysoedd Barn Caerdydd mewn adeilad arall ffurfiol iawn, ac mae'r fynedfa wreiddiol ar bodiwm uchel uwchben grisiau ysblennydd. Mae'r fynedfa hon yn rhan hanfodol o gymeriad yr adeilad. Llwyddwyd i ddarparu mynediad gwastad drwy addasu drws a oedd eisoes yn bodoli ar lefel y palmant, ac mae lifft y tu mewn iddo sy'n mynd ag ymwelwyr i bob un o loriau'r adeilad. Mae man parcio cyfagos ar gyfer pobl anabl yn hwyluso mynediad hefyd. Nid oedd modd troi'r fynedfa hon yn brif fynedfa, ond mae ymwelwyr anabl yn cyrraedd y prif gyntedd o'r lifft.
© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



## Neuadd yr Eglwys, Brynbuga

Yr unig ffordd i gyrraedd neuadd yr eglwys hon ym Mrynbuga oedd drwy fwlch yn y rheiliau o flaen y drws ac yna mynd i fyny un gris. Mae ramp, a chanllaw sydd wedi'i osod ar wal yr adeilad, yn golygu ei bod bellach yn haws o lawer mynd i mewn. Newidiwyd lleoliad y rheiliau gwreiddiol er mwyn diogelu'r ramp, a ffurfiwyd agorfa newydd drwyddynt. Roedd y ffordd syml ond effeithiol hon o wella mynediad yn parchu cymeriad hanesyddol yr adeilad, gan sicrhau ar yr un pryd fod cyn lleied o'r adeiladwaith a'r manylion hanesyddol â phosibl yn cael eu colli. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



**Capel Ffordd Hanbury, Bargoed**

Ar brydiau, mae angen ymyrryd mewn ffordd radical er mwyn helpu i roi bywyd newydd i adeiladau hanesyddol ac i sicrhau bod modd iddynt gael eu defnyddio'n llawn mewn ffordd gynhwysol. Pan gafodd Capel Ffordd Hanbury ym Margoed ei addasu a'i droi'n llyfrgell, adeiladwyd estyniad yn y cefn ar gyfer cyfleusterau cymunedol, man addoli a chaffi, a darparwyd mynediad gwastad i'r adeilad cyfan drwy osod lifft. Mae'r ffasâd gwreiddiol sy'n wynebu'r stryd yn parhau i gael ei ddefnyddio, ond mae gan yr adeilad bellach wyneb blaen arall sy'n wynebu'r maes parcio yn y cefn. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru





## Deialog a thrafodaeth

Mae Cadw yn annog ymgeiswyr i ymgynghori'n gynnar yn ystod y cam cyn ymgeisio â swyddogion cadwraeth, rheoli adeiladu a chynllunio'r awdurdod lleol, sefydliadau arbenigol perthnasol (gan gynnwys cynghorwyr enwadol yn achos mannau addoli hanesyddol) a chyda grwpiau mynediad lleol. Caiff ceisiadau sy'n cynnwys darpariaethau mynediad eu hadolygu gan swyddogion mewn adrannau cynllunio, a ddylai allu rhoi cyngor ar addasrwydd y datrysiadau arfaethedig, neu argymell ffynonellau cyngor ac arweiniad amgen. Pan fo'r newidiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar arwyddocâd yr adeilad, gall Cadw hefyd gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyn ymgeisio, ochr yn ochr â'r awdurdod cynllunio lleol.

Gall deialog ac adborth parhaus gan ddefnyddwyr hwyluso'r broses o ymdrin â cheisiadau am gydsyniadau adeilad rhestredig a chydsyniadau eraill, a helpu i gyflawni datrysiadau sy'n cyfuno mynediad a chadwraeth.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys pedwar opsiwn ar gyfer goresgyn rhwystr a achosir gan nodwedd ffisegol,[39] sef:

— cael gwared ar y nodwedd

— addasiadau i'r nodwedd

— cynnig ffordd resymol o'i hosgoi

— darparu'r gwasanaeth drwy ddull amgen rhesymol os nad oes unrhyw un o'r opsiynau blaenorol yn ddichonadwy.

Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi pa opsiwn y dylid ei ystyried yn gyntaf, ond mae'r cod ymarfer statudol yn argymell y dylai darparwyr gwasanaethau ddechrau drwy ystyried p'un a ellir cael gwared ar y nodwedd ffisegol sy'n creu rhwystr neu ei haddasu.[40] Mae'r dull gweithredu hwn mewn perthynas â mynediad yn gynhwysol gan ei fod yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bawb yn yr un ffordd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i unrhyw ffordd o osgoi'r nodwedd ffisegol fod yn ffordd 'resymol'. Wrth ystyried rhesymoldeb, dylid ystyried urddas pobl anabl ac i ba raddau yr achosir anghyfleustra neu bryder iddynt. Dylid bob amser gofio mai'r nod yw sicrhau mynediad o'r un safon i bawb.

### 3.2.2 Cael Gwared ar y Nodwedd

Cyn cael gwared ar nodwedd, bydd yn hanfodol asesu'r cyfraniad y mae'r nodwedd yn ei wneud i'r adeilad yn gyffredinol, a phwyso a mesur hynny yn erbyn y costau a'r buddiannau posibl wrth gael gwared arni. Bydd hyn yn pennu beth sy'n rhesymol.

Er enghraifft, mae'n bosibl bod adeilad o ddiddordeb arbennig o ganlyniad i ddrws neu risiau cul, ond mae'n bosibl mai'r nodwedd hon hefyd sy'n atal mynediad. Os felly, nid yw'n debygol y bydd cael gwared ar y nodwedd yn addasiad rhesymol a bydd datrysiad amgen yn fwy priodol.

### 3.2.3 Addasu'r Nodwedd

Mae'n bosibl y gellir gwneud addasiadau na fyddant yn effeithio'n andwyol ar adeiledd hanesyddol nac ansawdd yr adeilad. Gellir defnyddio'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a'r datganiad mynediad i egluro'r cyfyngiadau ac i gyfiawnhau pam bod yr addasiadau arfaethedig yn rhesymol, gan gynnwys unrhyw achos o wyro oddi ar y canllawiau a nodir yn Nogfen Gymeradwy M o'r Rheoliadau Adeiladu.

Gallai dewisiadau amgen sy'n ystyried datrysiadau y tu hwnt i ddatrysiadau safonol gynnwys newid y nodweddion ffisegol mewn ffordd gydnaws.

### 3.2.4 Datrys Rhwystrau i Fynediad

Gall fod yn bosibl osgoi rhwystr drwy newid y ffordd y caiff adeilad ei reoli a'i ddefnyddio. Er enghraifft, os nad yw'r brif fynedfa yn hygyrch ac nad yw'n briodol addasu'r fynedfa honno, gellid darparu mynediad drwy lwybr amgen neu drwy agor ail brif fynedfa. Byddai'r brif fynedfa ar gael o hyd, ond yn ddelfrydol, byddai pawb yn defnyddio'r fynedfa hygyrch. Dylai unrhyw fynedfa amgen barchu urddas y rhai sy'n ei defnyddio.

Gall fod angen gwneud newidiadau pellach i'r trefniadau ar gyfer rheoli'r adeilad a'r defnydd a wneir o'r gofod mewnol er mwyn hwyluso hyn. Er enghraifft, gallai adleoli gwasanaethau cyhoeddus o'r llawr uchaf i'r llawr daear wella mynediad ymhellach. Gellid addasu llwybrau cylchredeg o fewn adeilad er mwyn osgoi rhwystrau megis trothwyon ar ffurf grisiau a drysau cul.

**Banc, Aberteifi**

Roedd y palmant cul y tu allan i'r banc hwn yn Aberteifi yn golygu nad oedd ramp allanol yn opsiwn. Fodd bynnag, mae'r lôn ar ochr yr adeilad yn cyrraedd lefel y llawr mewnol, a manteisiwyd ar hynny er mwyn gwella mynediad. Gosodwyd wyneb newydd ar y lôn, ac addaswyd ffenestr a oedd eisoes yn bodoli er mwyn creu drws. Mae drysau sy'n agor a chau'n awtomatig drwy bwyso botwm isel yn fynedfa ychwanegol sy'n golygu ei bod yn hawdd mynd i mewn yn syth i'r neuadd fancio. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru





### 3.2.5 Darparu'r Gwasanaeth mewn Ffordd Arall

Gellir ystyried y dull gweithredu hwn yn ogystal â'r dulliau a drafodir uchod, neu lle y cafodd newidiadau ffisegol eu hystyried a'u gwrthod. Er enghraifft, lle na ellir goresgyn rhwystrau ffisegol, gallai darparwyr gwasanaethau ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio dulliau print, cyfrifiadurol neu clyweledol er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio'r gwasanaeth. Mewn achosion o'r fath, dylid ymgynghori â defnyddwyr anabl er mwyn cael gwybod p'un a yw'n dderbyniol darparu'r gwasanaeth mewn ffordd wahanol i'r ffordd a gynigir i bobl eraill.

Fodd bynnag, mae'n bosibl na chaiff y dull gweithredu hwn ei ystyried yn ddull rhesymol ar ei ben ei hun pe byddai un o'r opsiynau eraill wedi darparu gwasanaeth mwy cynhwysol i bob defnyddiwr.[41]

### Addasiadau Rhesymol ar Waith

Mae canllawiau cod ymarfer statudol Deddf Cydraddoldeb 2010 i ddarparwyr gwasanaethau yn nodi rhestr o gamau y gellir eu cymryd er mwyn nodi neu wneud addasiadau rhesymol. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth, ac mewn llawer o achosion bydd angen mwy nag un o'r mesurau hyn:

- cynllunio ymlaen llaw ar gyfer gofynion pobl anabl ac adolygu'r addasiadau rhesymol sydd ar waith
- cynnal archwiliadau mynediad ar safleoedd
- gofyn am farn cwsmeriaid anabl ar addasiadau rhesymol
- ymgynghori â grwpiau anabledd lleol a chenedlaethol
- tynnu sylw pobl anabl at addasiadau rhesymol perthnasol er mwyn iddynt wybod y gallant ddefnyddio'r gwasanaeth
- cynnal a chadw cymhorthion ategol yn briodol a sicrhau bod cynlluniau wrth gefn ar waith os bydd y cymhorthyn ategol yn methu
- hyfforddi cyflogeion er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i ymateb i geisiadau am addasiad rhesymol
- annog cyflogeion i ddatblygu sgiliau gwasanaethu ychwanegol ar gyfer pobl anabl (er enghraifft, cyfathrebu â phobl â nam ar eu clyw)
- sicrhau bod cyflogeion yn ymwybodol o'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ac yn deall sut i gyfathrebu â chwsmeriaid anabl er mwyn gallu nodi addasiadau o'r fath a'u rhoi ar waith.

**Banc, Y Rhyl**

Mae dwy fynedfa i'r banc hwn yn y Rhyl, a chaiff y ddwy eu defnyddio i ddarparu mynediad llawn i'r cyfleusterau. Nid yw'r brif fynedfa wreiddiol wedi newid ond symudwyd y cownteri sydd y tu mewn i'r adeilad, ac maen nhw bellach wrth ymyl y fynedfa ochr. Y fynedfa hon â'i ramp yw'r ffordd fwyaf uniongyrchol o gyrraedd y man gwasanaethau i gwsmeriaid, ac mae cwsmeriaid sy'n mynd i mewn drwy'r drws ysblennydd ar y gornel yn cael eu cyfeirio drwy'r adeilad at y cownteri.
© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



# 4—
# Sicrhau bod Mynediad yn Realiti

## 4.1
## Cyngor Ymarferol ac Enghreifftiau

**Er mwyn sicrhau mynediad ffisegol hawdd, mae angen i bobl allu symud o amgylch yn ddidrafferth ac ymdopi â newidiadau o ran lefel. Mae symudiadau llorweddol yn fwyaf tebygol o gael eu cyfyngu gan arwynebau llawr, coridorau, drysau, trothwyon a newidiadau bach o ran lefel. Er mwyn gwella gallu pobl i symud o amgylch yn fertigol, gall fod angen addasiadau i risiau a chanllawiau neu gyflwyno rampiau neu lifftiau. Gall yr holl newidiadau hyn effeithio ar ymddangosiad ac arwyddocâd yr adeilad. Mae arwynebeddau llwybrau, grisiau a graddiant yn achosi problemau tebyg mewn parciau a gerddi a bydd rhannau helaeth o'r canllawiau isod yr un mor berthnasol i amgylcheddau awyr agored.**

Isod, ceir trosolwg o sefyllfaoedd lle y bydd yn aml yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Mae'n bosibl na fydd rhai o'r enghreifftiau yn cydymffurfio'n gaeth â'r canllawiau yn Nogfen Gymeradwy M o'r Rheoliadau Adeiladu ond serch hynny, maent yn dangos cydbwysedd llwyddiannus rhwng addasiad rhesymol a sensitifrwyddau lleoedd hanesyddol.

Mae'r adran hon yn cynnwys canllawiau cyffredinol ar themâu cyffredin, Mae'n bosibl y bydd cyngor arbenigol ar gyfer mathau penodol o adeiladau ar gael hefyd gan sefydliadau a restrir o dan yr adran 'Rhagor o Wybodaeth' isod.

Lle ceir rhwystr ffisegol, dylai darparwr y gwasanaeth anelu at sicrhau bod ei wasanaethau yn hygyrch i bobl anabl ac, yn arbennig, ddarparu mynediad i wasanaeth sydd mor agos ag sy'n rhesymol bosibl i'r safon a gynigir fel arfer i'r cyhoedd yn gyffredinol. Wrth ystyried pa opsiwn i'w fabwysiadu, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ystyried a chymharu'r dewisiadau amgen gan roi sylw i bolisi'r Ddeddf, sef, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau y cynigir yr un lefelau mynediad i bobl anabl â gweddill y cyhoedd.

Deddf Cydraddoldeb 2010, *Services, Public Functions and Associations: Statutory Code of Practice*, 2011, 7.58[42]

## 4.2
## Ystyriaethau Cyffredinol

**Mae'n bosibl y bydd ffurf a chynllun adeiladau rhestredig yn agweddau pwysig ar eu cymeriad pensaernïol a'u gwerth esthetig. Mae'n bosibl hefyd eu bod yn cyfrannu at eu diddordeb hanesyddol, gan roi tystiolaeth o'u diben, eu hoedran a'u datblygiad. Mae deall yr egwyddorion dylunio sydd y tu ôl i drefn y ffasadau a threfn y mannau mewnol yn fan cychwyn hanfodol wrth gynllunio newidiadau er mwyn gwella mynediad.**

Er enghraifft, yn aml mae adeiladau secwlar mawr wedi cael eu dylunio â hierarchaeth i'r gwahanol fannau, gyda threfn benodol ar gyfer symud drwy'r adeilad – y cyntedd, y prif risiau, y prif goridor a'r prif ystafelloedd. Yn yr un modd, mae gan fannau addoli hierarchaeth i'r gwahanol fannau ynddynt sy'n adlewyrchu'r ffordd y cawsant eu dylunio i'w defnyddio. Mae'n bosibl bod ffurf ac addurniad pob un o'r mannau hyn yn rhan o ddiddordeb arbennig adeilad, ac mae'n rhaid meddwl yn ofalus cyn newid golwg adeilad. Mewn adeiladau llai mae'n bosibl na fydd digon o le ar gyfer ychwanegu pethau megis rampiau neu lifftiau, ac mae'n bosibl y bydd yr effaith weledol yn niweidiol.

Wrth ymdrin â newid lefelau a mannau cyfyngedig, mae'n debygol y bydd y pryderon ynghylch cadwraeth yn ymwneud â maint a chymesuredd, tebygrwydd o ran deunyddiau, dyluniad a'r golwg gorffenedig, yn ogystal â ffactorau strwythurol sy'n effeithio ar led coridorau a lefelau lloriau.

## 4.3
# Symud yn Llorweddol

### 4.3.1 Creu Mynediad

Dylid anelu at sicrhau bod prif fynedfa'r adeilad yn hygyrch i bawb yn barhaol. Gall cyfyngiadau cadwraeth ddeillio o ddyluniad a chymeriad ffasâd a lleoliad yr adeilad, a bydd gan bob adeilad ei nodweddion personol y dylid eu parchu, hyd y gellir, wrth ystyried addasiadau o ran mynediad.

**Y Deml Heddwch, Caerdydd**

Mae'r Deml Heddwch yng Nghaerdydd yn adeilad clasurol, a'r bwriad wrth ei ddylunio oedd creu adeilad cwbl gymesur. Yn yr un modd â llawer o adeiladau clasurol eraill, mae'r fynedfa ar bodiwm uchel. Er mwyn gwella mynediad ond gan barchu cymeriad yr adeilad ar yr un pryd, adeiladwyd rampiau cymesur bob ochr i'r portico.
© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae adeiladau clasurol, er enghraifft, fel arfer wedi'u hadeiladu yn ôl cynllun unigol, unedig sy'n dilyn rheolau cymesuredd a chyfrannedd caeth. Yn deillio o'r syniad o deml, mae'r fynedfa yn aml wedi'i gosod ar ben sylfaen a cheir grisiau i'w chyrraedd. Mae angen i addasiadau i adeiladau o'r fath barchu'r rheolau hyn, er weithiau y gall newidiadau cymharol fach dorri'r rheolau heb gael effaith sylweddol ar ymddangosiad yr adeilad.

Mae'n bosibl na fydd cymesuredd mor bwysig mewn mathau eraill o bensaernïaeth llai ffurfiol. Bydd cyfrannedd a chydbwysedd yn bwysig o hyd, ond mae'n bosibl y bydd mwy o hyblygrwydd yn golygu y gellir gosod ramp unigol anghymesur, er enghraifft.

**Tŷ o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, Prifysgol Bangor**

Erbyn hyn, mae'r tŷ hwn, a adeiladwyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn rhan o Brifysgol Bangor. Cafodd y ramp mynediad ei ddylunio ar echel groes, sy'n cyd-fynd yn braf â'r cyfuniad ecsentrig o arddulliau ar yr adeilad ac â'i anghymesuredd hyfryd. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



Gall tai teras Sioraidd a Fictoraidd â grisiau hyd at ddrws y ffrynt beri problemau sy'n ymddangos yn amhosibl i'w datrys mewn perthynas â mynediad. Mae'n bosibl y bydd pwyntiau mynediad amgen, megis cowrtiau, ar gael. Fel arall, mae'n bosibl y gellid defnyddio ardal islawr rhwng yr adeilad a'r palmant i osod lifft platfform i ddarparu mynediad o lefel y stryd i'r islawr. Yn aml, gall lifftiau platfform fod yn llai ymwthiol yn weledol na rampiau dros ardaloedd islawr.

Mewn lleoliadau trefol, bydd y gofod o flaen adeiladau yn aml yn gyfyng. Lle bydd gofod o'r fath ar gael, mae'n bosibl y gellir ailraddoli'r llwybr i gerddwyr hyd at bortsh neu bortico neu o fewn y strwythurau hynny. Lle na ellir ymaddasu mynedfa bresennol, mae'n bosibl y gellir creu mynedfa hygyrch newydd i bawb ei defnyddio.

**Eglwys, Caerdydd**

Cafodd y grisiau gwreiddiol o flaen yr eglwys hon yng nghanol Caerdydd eu codi drwy gael gwared â'r wal derfyn a oedd yn amgáu'r blaengwrt yn wreiddiol, a chodi'r palmant. Mae'r palmant yn goleddfu i ddau gyfeiriad, fel bod modd cyrraedd at ddrws yr eglwys o'r naill stryd neu'r llall. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



### 4.3.2 Drysau ac Agoriadau

Mae agoriadau drysau a ffenestri yn dangos cymeriad gwedd ac yn rhan annatod o'r ffasâd; yn gyffredinol, dylid osgoi unrhyw addasiadau i'w cyfrannedd neu eu nodweddion.

Lle bo'r brif fynedfa yn elfen allweddol o ddyluniad ffasâd adeilad, mae'n debygol y bydd ffrâm neu amgylchyniad y drws ei hun yn arwyddocaol. Gall fod yn bosibl gwneud addasiadau, ond dylid ystyried y broses yn ofalus. Lle ceir drysau trwm, mae'n bosibl y gellir ychwanegu dyfais agor drydanol neu o leiaf gloch er mwyn gallu galw am gymorth.

Mae Dogfen Gymeradwy M yn argymell agoriad 800mm clir ar gyfer mynediad unionsyth mewn adeiladau newydd, er y gall y rhan fwyaf o gadeiriau olwyn a gaiff eu llywio â llaw ymdopi â gofod ychydig yn llai. Felly mae'n bosibl y gellir cyfaddawdu, yn dilyn ymgynghoriad. Mae Dogfen Gymeradwy M yn awgrymu isafswm lled clir o 750mm mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes a 775mm ar gyfer drysau allanol.

Mae'n bwysig iawn sicrhau bod lle i symud ar hyd ymyl flaen drws. Lle nad oes digon o le ac nad yw llwybr angen yn ymarferol, gellid dal y drysau ar agor neu hyd yn oed gael gwared arnynt.

Gall cadeiriau olwyn a chymhorthion symudedd eraill achosi difrod anfwriadol i fframiau drysau cul a saernïaeth. Gall fod angen eu hamddiffyn er mwyn diogelu'r adeiledd hanesyddol.

Gall drysau dwbl â dalenni cul hefyd achosi problem gan y gall fod yn anodd i ddefnyddiwr cadair olwyn agor y ddau ddrws ar yr un pryd. Gellir dal drysau ar agor gan ddefnyddio bachau electromagnetig, wedi'u cysylltu â system larwm tân os bydd angen. Mae'n bosibl y gellid defnyddio system agor drydanol, er y gall gawith i ychwanegu dyfeisiau achosi difrod i'r saernïaeth. Mae'n bosibl y gellid hyd yn oed atodi'r dalenni at ei gilydd er mwyn gweithredu fel un drws. Weithiau, mae'n bosibl y bydd angen ailosod y dalenni gan ddefnyddio dalenni lled anghyfartal, er mwyn darparu agoriad 800mm clir ar un ochr.

Anaml y bydd yn dderbyniol ychwanegu paneli gweld mewn drysau hanesyddol pwysig. Mae'n fwy arferol dal y drysau ar agor er mwyn gwella mynediad.

Dylid gwneud pob ymdrech i gadw dodrefn drysau hanesyddol neu waith haearn traddodiadol sy'n rhan annatod o ddyluniad a chymeriad y drws. Mae'n debygol y byddai'n well awtomeiddio dull agor y drws neu ddibynnu ar aelodau o staff i roi cymorth na gosod dolennau lifer yn lle ffitiadau pwysig. Dylid ystyried yr uchder rhwng y ddolen a'r drws, pa mor hawdd y gellir eu defnyddio a'r cyferbyniad gweledol rhyngddynt. Dylid addasu systemau hunan-gau sy'n cau'n sydyn neu'n drwm yn rheolaidd er mwyn sicrhau'r pwysedd gweithredu lleiaf posibl.




**Banc canol y ddinas, Caerdydd**

Yn wreiddiol, roedd dau ris gwenithfaen wrth fynedfa'r banc mawr hwn yng nghanol y ddinas yng Nghaerdydd. Llwyddwyd i greu mynediad ar hyd ramp drwy greu palmant twmpathog a oedd bron â chyrraedd y lefel angenrheidiol, yna naddu ymyl flaen y gris olaf a llyfnhau'r garreg i greu ongl. Mae'r ramp yn cyrraedd y drysau solet gwreiddiol, sy'n cael eu dal yn agored yn ystod y dydd. Mae yna gyntedd gwastad newydd o flaen drysau awtomatig modern. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru




**Hen Fanc, y Fenni**

Yn yr Hen Fanc yn y Fenni, mae dalennau'r drws gwreiddiol yn cael eu dal yn agored yn ystod oriau busnes, ac mae drws awtomatig wedi'i osod y tu mewn.
© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru

### 4.3.3 Trothwyon

Yr uchafswm trothwy a dderbynnir yn gyffredinol er mwyn sicrhau y gall defnyddiwr cadair olwyn annibynnol symud drosto yw 15mm, er y bydd rhai pobl o bosibl yn gallu symud dros drothwy ychydig yn uwch, yn enwedig os bydd yr ymyl blaen ar oleddf. Gellir darparu rampiau trothwy byr dros dro, er y dylid sicrhau y cânt eu defnyddio'n ofalus.

Mewn adeiladau ffrâm pren, dylid gwneud pob ymdrech i osgoi torri platiau silff neu gydrannau eraill o fframiau sy'n cyfrannu at uniondeb strwythurol yr adeilad. Gall rhimyn ar oleddf ar y naill ochr a'r llall ddatrys gwahaniaeth bach mewn uchder. Os bwriedir gorchuddio platiau silff â llawr uwch neu ramp, dylid sicrhau bod dulliau awyru ar waith ac na chaiff unrhyw leithder ei ddal, a all achosi i'r pren bydru.

### 4.3.4 Lloriau

Mae angen sicrhau nad oes unrhyw berygl y bydd pobl yn baglu ar hyd llwybrau drwy'r adeilad a'u bod yn ddigon llyfn i ddefnyddwyr cadair olwyn. Fodd bynnag, dim ond pan na fydd unrhyw ddewis arall y dylid ystyried lefelu neu addasu lloriau hanesyddol, ar ôl ystyried opsiynau eraill, a fyddai o bosibl yn achosi llai o ddifrod, yn llawn. Os bydd arwyneb y llawr hanesyddol yn arbennig o fregus, mae'n debygol y bydd angen ei ddiogelu rhag pobl ar droed a chadeiriau olwyn, yn enwedig cadeiriau olwyn trydanol trwm. Mae'n bosibl mai gorchudd llawr dros dro, y gellir ei dynnu o bryd i'w gilydd er mwyn gallu gweld y llawr, fydd yr unig ateb priodol. Mewn achosion o'r fath, dylid sicrhau bod gwybodaeth gwbl hygyrch am y llawr a'i bwysigrwydd ar gael gerllaw.

Gall lloriau gorgaboledig fod yn beryglus ac mae gorffeniadau gwrthlithro yn bwysig, yn enwedig mewn ardaloedd lle y gall y llawr fynd yn wlyb. Dylid hefyd osgoi rygiau rhydd heb unrhyw is-haen i'w hangori neu rygiau lle ceir perygl o faglu dros yr ymylon. Gall fod yn anodd i gadeiriau olwyn deithio dros garpedi trwchus.

### 4.3.5 Coridorau

Rhaid i lwybrau cylchredeg ganiatáu i bobl symud o amgylch yn hawdd a chreu ymdeimlad o leoliad a chyfeiriad. Y lled dirwystr delfrydol ar gyfer coridor yw 1200mm, er yr argymhellir lled o 1800mm er mwyn i ddefnyddwyr cadair olwyn allu mynd heibio i'w gilydd.

### 4.3.6 Cyferbyniad gweledol

Gall cyferbyniad gweledol fod yn ffordd ddefnyddiol o wahaniaethu rhwng arwynebeddau llawr a wal gan felly helpu pobl i leoli eu hunain. Bydd tonau cyferbyniol ar gyfer drysau neu fframiau drysau a rhwystrau posibl hefyd o gymorth i bobl symud o amgylch yn ddiogel. Dylid ystyried gwerthoedd adlewyrchu golau (LRV) er mwyn sicrhau bod digon o gyferbyniad. Mae Dogfen Gymeradwy M yn argymell y dylai fod o leiaf 30 pwynt o wahaniaeth yn y gwerth adlewyrchu golau rhwng arwynebau sy'n cyferbynnu'n weledol.

Argymhellir y dylid gosod cyferbyniad gweledol ar ymylon blaen grisiau a gallant fod yn arbennig o ddefnyddiol i bobl â nam ar eu golwg. Mae'n bosibl y bydd stydiau metel cyffyrddol yn briodol hefyd mewn rhai sefyllfaoedd. Gellir darparu ymylon blaen cyferbyniol ar risiau â charped, gellir defnyddio paent y gellir ei waredu os yw hynny'n briodol, a lle nad yw'n bosibl gwneud addasiadau, gall goleuadau cyfarwyddol helpu i ddarparu cyferbyniad cysgodol.



**Llancaiach Fawr**

Mae Llancaiach Fawr yn dŷ rhestredig gradd I a adeiladwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg ac mae'n cael ei redeg fel atyniad i ymwelwyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Aed at i wella mynediad mewn sawl ffordd pan gafodd y tŷ ei adnewyddu. Ymhlith y gwelliannau hynny yr oedd y penderfyniad dewr i ychwanegu bloc cwbl newydd, gan greu lle ar gyfer grisiau a lifft. Mae'r tŷ'n cael ei gyflwyno fel y byddai ym 1645, ac wrth ddylunio'r bloc newydd, sicrhawyd y byddai'n cyd-fynd ag adeiladau o'r cyfnod hwnnw. Mae'r grisiau newydd yn edrych fel rhai traddodiadol, ond mae'r grisiau eu hunain yn wastad ac mae arnynt stribedi diogelwch cwrs i atal pobl rhag llithro.
© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru

### Eglwys Sant Cadoc, Rhaglan

Yn Eglwys Sant Cadoc, Rhaglan, nid oes carped ar y gris rhwng prif gorff yr eglwys a'r gangell er mwyn creu cyferbyniad clir, a thynnu sylw at y gwahaniaeth o ran uchder. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



### Neuadd Fawr, Llancaiach Fawr

Mae'r Neuadd Fawr yn Llancaiach Fawr ar y llawr cyntaf, ac mae gwahaniaethau hanesyddol o ran lefelau yn golygu na ellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Fodd bynnag, aed ati i wastatáu'r grisiau a'r lefelau er mwyn ei gwneud yn haws i ymwelwyr sy'n gallu cerdded gyrraedd y Neuadd, a defnyddiwyd deunydd cyferbyniol ar ris y llwyfan isel er mwyn tynnu sylw at y gwahaniaeth o ran uchder. Mae rhith-daith ar gael ar sgrin yn y ganolfan ymwelwyr ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu ymweld â'r Neuadd Fawr. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



## 4.4
# Symud yn Fertigol

### 4.4.1 Rampiau

Fel arfer, mae'n well defnyddio rampiau na lifftiau platfform a gallant roi mynediad hawdd a chyfleus ar yr amod nad ydynt yn rhy serth nac yn rhy hir. Maent hefyd yn dueddol o fod yn rhatach ac yn llawer haws i'w cynnal a'u cadw. Fodd bynnag, lle bydd y newidiadau o ran lefel yn rhy fawr, lle nad oes digon o le neu lle mae angen profedig i ddiogelu nodweddion pensaernïol neu archaeolegol, mae'n bosibl y bydd angen ystyried lifft o hyd.

**Banc, Llandudno**

Mae mynedfa'r banc ysblennydd hwn yn Llandudno mewn portsh mewn cilfach hanner crwn, a rhaid mynd i fyny grisiau i'w chyrraedd. Llwyddwyd i wella mynediad drwy ddarparu ramp sydd, er ei fod yn eithaf serth, yn fyr hefyd. Wrth adeiladu'r ramp, defnyddiwyd deunyddiau o ansawdd uchel a manylion sy'n cyd-fynd ag ansawdd eithriadol yr adeilad gwreiddiol. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



Diffinnir unrhyw oleddf o 1:20 neu'n fwy serth fel ramp gan Ddogfen Gymeradwy M. Dylai graddiant rampiau fod mor fas ag sy'n ymarferol gan eu bod yn creu anawsterau i rai unigolion sy'n defnyddio cadair olwyn ac i rai pobl anabl sy'n gallu cerdded. Mae Dogfen Gymeradwy M yn cynghori uchafswm goleddf o 1:12 ar gyfer pellter o hyd at 2m rhwng landins gwastad. Gellir defnyddio ramp hirach os bydd y graddiant yn fwy bas ac os darperir landins addas. O dan amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y bydd graddiant mwy serth dros bellterau byrrach yn fwy dymunol na dim ramp o gwbl, er na fydd y rhain yn addas ar gyfer rhai unigolion sy'n defnyddio cadair olwyn heb gymorth a dylid sicrhau y cânt eu defnyddio'n ofalus. Yn gyffredinol, gall cadeiriau olwyn trydanol ymdopi â llethrau mwy serth na chadeiriau olwyn a gaiff eu llywio â llaw. Byddai angen cyflwyno'r achos dros ramp mwy serth neu hirach na'r hyn a argymhellir yn Nogfen Gymeradwy M yn y datganiad mynediad fel rhan o'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth.

Wrth greu rampiau parhaol a chodi lefelau lloriau, dylid ystyried nodweddion dylunio megis sgertin, plinthau neu reiliau dado. Yn aml, mae'r rhain yn gwneud cyfraniadau pwysig at raddfa a chyfran ystafell.

**Eglwys Gloddaeth, Llandudno**

Yn Eglwys Gloddaeth, Llandudno, mae ramp hir â graddiant isel yn hwyluso mynediad i'r eglwys ac i'r neuadd gyfagos. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru





**Gwesty, Llandudno**

Yn y gwesty hwn yn Llandudno, roedd y safle cyfyng, ynghyd â’r ffaith bod yr adeilad mewn man uchel, yn golygu bod angen ramp mynediad hirach nag arfer. Mae’i ddyluniad a’r manylion arno yn gweddu’n dda i’r drefwedd sydd o’i amgylch. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



Gall rampiau dros dro gael effaith weledol andwyol ac nid ydynt yn debygol o gynnig datrysiad hirdymor boddhaol i broblemau mynediad. Fodd bynnag, gellir eu hystyried yn addasiad rhesymol cyn darparu datrysiad parhaol arfaethedig, neu lle y gall fod angen mynediad am gyfnod cymharol fyr o ystyried oes yr adeilad, neu lle na chaiff yr adeilad ei ddefnyddio'n aml. Dylid sicrhau bod mesurau dros dro yn cyrraedd yr un safonau dylunio ac adeiladu ag ymyriadau parhaol, yn enwedig o ystyried y gall fod angen eu cymeradwyo'n ffurfiol hefyd. Yn yr un modd â threfniadau parhaol, dylent geisio lleihau'r effaith weledol a sicrhau eu bod wedi'u hintegreiddio cystal â phosibl a'u bod mor annibynnol â phosibl.

Mewn addoldai, mae'n bosibl y bydd gan newidiadau i lefelau lloriau arwyddocâd hanesyddol a litwrgaidd. Lle nad oes angen newidiadau mawr o ran lefel, gellid ystyried ramp dros dro er ei bod bob amser yn well defnyddio ymyriad parhaol, wedi'i ddylunio'n ofalus i barchu uniondeb hanesyddol yr ardal gyfagos.

Os defnyddir rampiau cludadwy, bydd goblygiadau rheoli, er enghraifft argaeledd staff i'w codi a'u tynnu fel y bo angen ac er mwyn sicrhau y cânt eu defnyddio'n ddiogel.

Mae'n bosibl y cânt eu defnyddio o bryd i'w gilydd ar gyfer ymwelydd unigol, neu o dro i dro ar gyfer digwyddiad dros gyfnod o sawl diwrnod. Yn ogystal ag osgoi datrysiad sy'n ymwthiol yn weledol, mae'n bosibl y bydd rampiau cludadwy hefyd yn well ar gyfer eiddo llai o faint neu lle na cheir defnydd helaeth o gadeiriau olwyn. Mae trefniadau staffio, hyfforddiant a mannau storio priodol yn rhan annatod o'r datrysiad.

Mae llawer o bobl anabl sy'n gallu cerdded yn ei chael hi'n anodd defnyddio rampiau. Lle ceir newid o fwy na 300mm mewn lefel, argymhellir y dylid darparu grisiau yn ogystal â ramp. Dylid cynnig dull mynediad amgen, megis lifft, lle ceir newid o 2m neu fwy mewn lefel.

### 4.4.2 Grisiau a Landins

Yn aml, y prif risiau yw'r brif elfen yn y gofod cyhoeddus pwysicaf mewn adeilad. Felly mae'n debygol y byddant o bwysigrwydd pensaernïol a hanesyddol sylweddol. Yn aml, mae grisiau o'r fath yn methu â chydymffurfio â safonau presennol ac mae'n debygol y bydd cynnig i'w newid yn ddadleuol. Mae'n bosibl y gellir dod o hyd i ddatrysiad amgen os bydd ail risiau y byddai eu haddasu yn cael llai o effaith.

**Neuadd farchnad hanesyddol Caergybi**

Erbyn hyn, mae neuadd farchnad hanesyddol Caergybi wedi cael ei throi'n llyfrgell. Un o'r nodau pwysig wrth fynd ati i'w newid oedd creu mynediad cynhwysol, ac roedd grŵp defnyddwyr a sefydlwyd ar gyfer y prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr o blith pobl anabl. Mae ramp hir yn codi o fynedfa'r adeilad i lawr y llyfrgell, ond mae arno landin er mwyn osgoi creu un darn hir, ac mae'r landin honno hefyd yn creu cyferbyniad da yn weledol. Mae arno hefyd ganllawiau cymesur. Cyngor Sir Ynys Môn; © Andy Marshall



**Egwlys Crist, y Bala**

Roedd creu lle croesawgar i bawb yn un o amcanion y cynllun cynhwysfawr i newid cynllun mewnol yr adeilad yn Eglwys Crist, y Bala. Bellach, mae ynddi fan addoli golau ac agored, ac mae'r dyluniad yn cynnwys ramp cain wrth ochr y grisiau er mwyn cyrraedd y gangell.
© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru / © Michael Plane, Esgobaeth Llanelwy





### 4.4.3 Canllawiau

Mae canllawiau yn weledol iawn ac felly mae eu dyluniad yn hollbwysig. Yn anochel, bydd cyflwyno canllawiau newydd ar risiau yn effeithio ar gymeriad y gofod a'r nodweddion presennol, hyd yn oed os byddant wedi'u dylunio mewn modd gofalus a sensitif iawn. Mae astudiaethau dylunio manwl, wedi'u hategu gan ddarluniadau a delweddau cywir, yn hanfodol er mwyn gallu cynllunio ymyriadau o'r fath yn briodol a deall eu heffaith yn llawn.

Mewn adeiladau hŷn, yn gyffredinol nid oedd canllawiau wedi'u dylunio i ymestyn 300mm y tu hwnt i'r gris cyntaf na'r gris olaf, ac nid ydynt yn debygol o fodloni'r proffil a argymhellir erbyn heddiw. Lle nad oes modd ymestyn canllawiau neu lle na ellir dal gafael ynddynt, mae'n bosibl y gellid gosod canllaw ychwanegol mwy addas. Mae'r safonau presennol yn ei gwneud yn ofynnol gosod canllaw ar ddwy ochr unrhyw risgiau a gosod canllawiau canolog ychwanegol lle mae lled y grisiau yn fwy na 1800mm. Ar risiau lletach, lle na ellir gosod canllawiau ar yr ochrau, mae un canllaw canolog yn cynnig yr opsiwn dymunol, sef opsiwn llaw dde ac opsiwn llaw chwith. Ar risiau culach, mae un canllaw da yn well na dim canllaw o gwbl.

Mae'n bosibl y bydd cyd-destun hanesyddol grisiau yn awgrymu mai'r datrysiad gorau fyddai efelychu dyluniad y canllaw presennol, er na fyddai hynny'n cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau yn Nogfen Gymeradwy M. Serch hynny, gellid ei ystyried yn addasiad rhesymol. Lle mae ystyriaethau cadwraeth ac ystyriaethau esthetig yn golygu bod angen cadw canllawiau nad ydynt yn cydymffurfio ond sy'n ganllawiau hanesyddol, yna dylid codi'r mater hwn yn y datganiad mynediad yn y datganiad o'r effaith ar dreftadaeth.

#### Atigau Llancaiach Fawr

Mae'r atigau yn Llancaiach Fawr yn her benodol oherwydd bod y grisiau troellog gwreiddiol yn anwastad ac yn serth. Erbyn hyn, mae canllaw newydd a wnaed o haearn yn helpu ymwelwyr sy'n gallu cerdded i gyrraedd yr atigau, lle mae ystafelloedd y gweision. Drwy ddylunio gofalus, llwyddwyd i sicrhau bod y rheilen yn ychwanegu at gymeriad y nodwedd hanesyddol hon yn lle amharu arno.
© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



**Neuadd y Ddinas, Caerdydd**

Yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd, mae lifft platfform yn rhan o'r grisiau sy'n arwain at y fynedfa i'r cyntedd. Er mwyn gosod y lift, tynnwyd rhan fach o'r grisiau ysblennydd sy'n arwain at y fynedfa a chafodd drws ei greu yn un o'r waliau crwm sydd bob ochr i fynedfa'r cyntedd. Cafodd y canllawiau ar y grisiau eu gosod beth amser yn ôl: mae pres yn ddeunydd traddodiadol sy';n creu cyferbyniad da yn weledol. Mae'r proffil mawr crwn yn hawdd gafael ynddo.
© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



**Tŵr grisiau yn Llancaiach Fawr**

Mae'r tŵr grisiau newydd yn Llancaiach Fawr yn adlais o arddull y tŷ gwreiddiol, a adeiladwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ond mae'r muriau gwyngalchog yn ffordd gynnil o wahaniaethu rhwng yr hen a'r newydd. Mae'r ramp i mewn iddo wedi cael ei guddio y tu ôl i wal garreg y parapet. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



## Llancaiach Fawr

Un o nodweddion hynod Llancaiach Fawr yw'r holl risiau mewnol a oedd, yn wreiddiol, yn rhwydwaith o ffyrdd i ddianc o adeilad nad oedd yn cael ei amddiffyn o'r tu allan. Mae'r lefelau'n newid cryn dipyn y tu mewn i'r adeilad hefyd, gan greu heriau o ran mynediad i ymwelwyr. Mewn un achos, gosodwyd grisiau pren symudol ar ben y rhai carreg gwreiddiol er mwyn creu wyneb gwastad. Mae canllawiau newydd a ychwanegwyd at risiau hanesyddol yn hwyluso mynediad hefyd.
© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



## Llancaiach Fawr

Mae lifft platfform yn caniatáu i bobl gyrraedd llawr cyntaf ac ail lawr y tŷ hanesyddol o'r tŵr grisiau newydd.
© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



### 4.4.4 Lifftiau

Y ffordd orau o ddarparu cylchrediad hygyrch rhwng gwahanol loriau adeilad yw gosod lifft integredig o faint addas i bobl. Yn ogystal â helpu defnyddwyr cadair olwyn, gall hefyd fod o fudd i bobl anabl sy'n gallu cerdded, pobl hŷn a phobl â chadeiriau gwthio. Mae lifft i bobl yn fwy tebygol o fod yn ymarferol mewn adeiladau mwy o faint. Lle nad oes llawer o le neu lle bo angen datrysiad cost is, mae'n bosibl y bydd lifft platfform esgyniad byr yn ddatrysiad mwy hyfyw.

Mae'n well lleoli lifftiau i bobl a lifftiau platfform yn ardaloedd llai sensitif adeiladau rhestredig, er enghraifft, ail risiau a siafftiau golau neu mewn ardaloedd lle y gwnaed newidiadau neu addasiadau eisoes. Dylid lleoli'r pyllau a'r agoriadau ar gyfer siafftiau lifft yn ofalus er mwyn peidio â cholli na difrodi gwaith pren arwyddocaol, olion archaeolegol neu arwynebeddau addurniadol.

Dylid sicrhau bod dyfeisiau rheoli lifftiau yn hawdd i bawb eu defnyddio a dylent gynnwys botymau cyffyrddadwy â goleuadau â chyferbyniad gweledol wedi'u gosod ar uchder priodol ac mewn lleoliad priodol. Gall gwybodaeth glywadwy helpu pobl sy'n defnyddio'r lifft ac sy'n aros am y lifft.

Dylai caban y lifft fod yn ddigon mawr ar gyfer unrhyw fath o gadair olwyn ac o leiaf un teithiwr arall. Bydd caban lifft â lled o 2000mm a dyfnder o 1400mm yn ddigon mawr ar gyfer y rhan fwyaf o sgwteri ac yn golygu y bydd defnyddwyr cadair olwyn yn gallu troi 180 gradd. Gall hefyd fod yn fwy addas pan fydd llawer o ymwelwyr yn defnyddio'r safle. Mewn rhai adeiladau rhestredig, mae'n bosibl mai caban llai o faint fydd yr unig opsiwn. Mae angen dyfnder o 1400mm a lled o 1100mm o leiaf ar gyfer un defnyddiwr cadair olwyn a chydymaith. Os bydd yr amgylchiadau yn caniatáu, dylai fod yn lifft trwodd gyda drysau ar y naill ochr a'r ochr gyferbyn, fel na fydd yn rhaid i'r defnyddiwr cadair olwyn droi o amgylch na theithio am yn ôl er mwyn dod allan o'r lifft. Mae hyn hefyd yn berthnasol i lifftiau platfform esgyniad byr.

Ni waeth pa fath o lifft, dylid ystyried y gofynion o ran gwaith cynnal a chadw a rheoli parhaus, yn enwedig yn achos lifftiau allanol a gaiff eu hamlygu i'r gwynt a'r glaw.

Mae rhai mathau o lifftiau i bobl a'r rhan fwyaf o lifftiau platfform yn golygu nad oes angen ardal gor-redeg na phyllau lifft mawr, drud. Mae lifftiau platfform esgyniad byr yn golygu y gellir newid lefelau o hyd at 4m os byddant wedi'u cynnwys o fewn siafft lifft amgaeedig. Mae angen maint platfform â lled o 800mm a dyfnder 1250mm o leiaf lle nad yw'r platfform wedi'i amgáu a lled o 900mm a dyfnder 1400mm o leiaf lle bo wedi'i amgáu er mwyn i ddefnyddiwr cadair olwyn allu ei ddefnyddio. Bydd platfform amgaeedig â lled o 1100mm a dyfnder o 1400mm yn ddigon mawr ar gyfer defnyddiwr cadair olwyn a chydymaith a dyma'r maint lleiaf a fydd yn caniatáu dau ddrws wedi'u gosod ar ongl o 90 gradd i'w gilydd.

**Llancaiach Fawr**

Cafodd ffordd i mewn o'r tŵr grisiau newydd i lawr cyntaf y tŷ hanesyddol ei chreu drwy dorri tramwyfa newydd drwy'r wal wreiddiol ac addasu'r panelau ar y wal yn ofalus er mwyn creu drws nad oes modd ei weld bron pan fydd ynghau.

© Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



Dim ond lle na ellir gosod lifft safonol i bobl na lifft platfform safonol y dylid defnyddio lifftiau grisiau neu lifftiau platfform traddodiadol sy'n dilyn goleddf grisiau. Nid yw pobl anabl yn dueddol o'u hoffi a gallant fod yn ddiurddas neu'n amhosibl i rai pobl eu defnyddio. Gallant hefyd greu ymwthiad gweledol annerbyniol ac ni ellir eu gosod ar risiau ar lwybr dianc os ydynt yn achosi rhwystr neu'n lleihau lled y grisiau i lai na'r isafswm derbyniol. Dim ond fel y dewis olaf y dylid eu hystyried pan fydd yn amhosibl gosod lifft fertigol neu ramp neu lle nad oes llwybrau amgen ar gael.

Mae dringwyr grisiau yn ddyfeisiau a gaiff eu hatodi i gadeiriau olwyn er mwyn gallu eu cludo i fyny neu i lawr grisiau. Rhaid iddynt gael eu gweithredu gan staff hyfforddedig. Nid ydynt yn addas ar gyfer pob math o gadair olwyn, ac nid ydynt ychwaith yn datrys problemau mynediad y sawl sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio grisiau. Gallant hefyd achosi embaras a phryder gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn gwbl ddiogel. Gall y difrod y gallant ei achosi i'r grisiau hefyd olygu y byddant yn anaddas i'w defnyddio ar risiau hanesyddol arwyddocaol. Mae'n bosibl mai dringwr grisiau fydd yr unig ddatrysiad i rai problemau mynediad ond dim ond pan na fydd unrhyw opsiwn ymarferol arall y dylid ei ystyried.

**Llyfrgell Caergybi**

Mae lifft platfform yn caniatáu i bobl gyrraedd un o'r ystafelloedd cyfarfod yn llyfrgell Caergybi. Gan fod y grisiau gwreiddiol wedi pydru, roedd modd ad-drefnu'r gofod i wneud lle ar gyfer y lifft. Mae ymyl flaen y stepiau ar y grisiau newydd yn lliw gwahanol er mwyn creu cyferbyniad da yn weledol. Cyngor Sir Ynys Môn © Andy Marshall





Eglwys yn Nolgellau

Lifft risiau oedd yr unig ffordd ymarferol o ddarparu mynediad cynhwysol i ystafell yr oriel yn yr eglwys yn Nolgellau. Cyrhaeddir y grisiau o gyntedd mewnol, gan leihau'r effaith weledol ar du mewn yr eglwys hanesyddol. © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru

### 4.4.5 Dianc mewn Argyfwng

Rhaid ystyried ffyrdd allan yn ogystal â ffyrdd i mewn. Rheolwyr yr adeilad neu ddarparwyr gwasanaethau yn yr adeilad sy'n gyfrifol am ddarparu dull dianc digonol i bawb sy'n defnyddio'r adeilad hwnnw. Dylai cynlluniau ar gyfer argyfwng olygu y gellir gwagio'r adeilad heb ddibynnu ar y gwasanaeth tân, a dylid eu llunio ar ôl ymgynghori â'r swyddog tân a defnyddwyr anabl yr adeilad er mwyn sicrhau y caiff eu hanghenion eu hystyried. Dylai pob aelod o staff y disgwylir iddynt helpu pobl anabl i adael yr adeilad gael hyfforddiant priodol.

Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005[43] yn nodi'r gofynion ar gyfer diogelwch tân ac fe'i hategir gan nifer o ganllawiau atodol, gan gynnwys *Fire Safety Risk Assessment: Means of Escape for Disabled People*.[44] Ceir canllawiau hefyd yn BS 9999: 2017 *Fire Safety in the Design, Management and Use of Buildings — Code of Practice* ac yn *Expert Commentary on BS 9999:2017. Fire Safety in the Design, Management and Use of Buildings — Code of Practice*.[45]

Mae'n bosibl y bydd pobl anabl yn gallu gadael ystafelloedd ar y llawr daear eu hunain ond y bydd angen cymorth arnynt i ddianc o loriau uwch neu loriau is. Mae'n bosibl y bydd angen darparu llochesi gwrth-dân wrth ymyl unrhyw risiau lle y gall pobl aros yn ddiogel am gymorth. Lifft gwagio'r adeilad yw'r dull dianc gorau ac fe'i defnyddir yn gynyddol yn hytrach na chario defnyddwyr cadair olwyn lawr y grisiau. Ceir canllawiau ar lifftiau gwagio'r adeilad yn BS 9999.

Dylai cynlluniau ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng fod yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion ymwelwyr anabl na ellir nodi eu gofynion penodol ymlaen llaw. Gellir teilwra cynlluniau ar wahân ar gyfer cyflogeion anabl er mwyn diwallu eu hanghenion penodol ac ystyried y cymorth y gwyddys ei fod ar gael.

## 4.5
## Goleuadau, Arwyddion a Gwybodaeth

### 4.5.1 Goleuadau

Mae trefniadau goleuo da yn caniatáu i bobl symud yn hawdd ac yn ddiogel i mewn i adeiladau ac o amgylch yr adeiladau hynny. Os cânt eu defnyddio'n effeithiol, gall rhwystrau ymddangos yn fwy amlwg a gallant ddarparu arweiniad ar hyd llwybrau.

Dylid osgoi llewyrch, pyllau o olau llachar ac ardaloedd â chysgodion tywyll. Mae'n bosibl y bydd angen ategu cynlluniau goleuo mewnol â ffitiadau ychwanegol wedi'u lleoli mewn modd sensitif er mwyn sicrhau y caiff lefelau goleuo priodol eu cyflawni, yn enwedig lle ceir grisiau neu newidiadau mewn lefel. Er enghraifft, gall bleindiau ar ffenestri fod yn ddefnyddiol wrth gael gwared ar lewyrch neu gysgodion dryslyd ar adegau penodol o'r dydd.

Dylid osgoi newidiadau sydyn o ran lefelau goleuo, a dylid creu ardaloedd penodol ar gyfer trosglwyddo o ofod llachar i ofod mwy tywyll lle bynnag y bo'n bosibl. Gall fod yn ddefnyddiol darparu man gorffwys neu aros a chyfle i ymgyfarwyddo â'r lefelau goleuo is. Er bod cynlluniau goleuo cyferbyniad uchel sy'n cynyddu effaith ddramatig adeilad neu ofod yn dod yn gynyddol gyffredin, fel arfer mae'n bosibl sicrhau bod lefelau goleuo yn fwy cyson yn yr ardaloedd hynny lle y gallai diogelwch fod yn broblem.

### 4.5.2 Arwyddion

Dylai arwyddion fod yn syml, yn fyr, yn hawdd i'w deall ac wedi'u lleoli lle y byddant wedi'u goleuo'n effeithiol ac yn amlwg. Lle mae angen arwyddion dwyieithog ar gyfer adeiladau cyhoeddus Cymru, dylid ystyried y dyluniad a'r cyflwyniad yn ofalus i sicrhau eu bod yn glir ac y gellir eu darllen, a bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Mae angen i arwyddion allanol nodi'r fynedfa hygyrch os nad y brif fynedfa a ddefnyddir at y diben hwn. Gall arwyddion hefyd nodi pellterau at nodweddion neu ardaloedd allweddol, presenoldeb goleddf a'i raddiant, a sut y gellir cael cymorth.

Mae arwyddion clir sy'n hawdd i'w gweld wedi'u dylunio gan ddilyn arddull gyson yn helpu pawb. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd pobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw yn amharod i ofyn am gyfarwyddiadau rhag ofn na fyddant yn gallu clywed neu ddehongli'r ymateb.

Dylai arwyddion ar gyfer cyfleusterau sy'n benodol ar gyfer pobl anabl ddefnyddio'r symbol mynediad rhyngwladol. Yn achos arwyddion eraill, dylid defnyddio symbolau gwybodaeth gyhoeddus a gydnabyddir yn gyffredinol yn lle testun lle y bo'n bosibl. Dylid defnyddio unrhyw symbolau eraill â thestun.

**Llyfrgell, Ynys Môn**

Mae lliwiau cyferbyniol a delweddau mawr yn nodweddion cryf o'r arwyddion ar gyfer y toiledau yn llyfrgell Caergybi. Y llyfrgell yw'r adeilad cyntaf hygyrch i'r cyhoedd ar Ynys Môn i ddarparu toiled Changing Places ar gyfer pobl anabl iawn. Cyngor Sir Ynys Môn; © Andy Marshall



Yn gyffredinol, dylai'r hysbysfwrdd gyferbynnu â'i gefndir a dylai'r llythrennau gyferbynnu â'r hysbysfwrdd. Yn gyffredinol, mae'n haws darllen llythrennau bach â phriflythrennau ar ddechrau geiriau na dim ond priflythrennau. Mae angen i faint y llythrennau fod yn briodol hefyd o ran y pellter y bydd pobl yn eu gweld. Dylai'r arwydd ei hun fod ar uchder sy'n golygu y gellir ei weld pan fydd llawer o bobl yn yr ardal neu pan fydd ciwiau yn debygol. Gellir cynnwys gwybodaeth Braille a gwybodaeth foglynnog ar arwyddion y tu mewn i adeilad hanesyddol, ar yr amod y gwneir hynny mewn modd sensitif, er y bydd bob amser fwyaf effeithiol fel rhan o gynllun cyfathrebu integredig. Dim ond os byddant wedi'u gosod o fewn cyrraedd hawdd i bobl y bydd arwyddion cyffyrddadwy yn ddefnyddiol.

Ni waeth ble y caiff arwyddion eu lleoli, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r ffordd y cânt eu gosod a'r effaith y byddant yn ei chael ar gymeriad y gofod y cânt eu hychwanegu ato. Weithiau, mae'n bosibl y bydd arwyddion annibynnol yn fwy priodol nag arwyddion wedi'u gosod yn barhaol ar wal, er enghraifft, pan fydd digwyddiadau yn cael eu cynnal.

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth glywadwy ategol yn ddefnyddiol i ategu arwyddion gweledol a chyffyrddadwy.

### 4.5.3 Gwybodaeth

Yn aml, mae'n fwy defnyddiol darparu gwybodaeth gynhwysfawr am fynediad, a'r wybodaeth honno mewn fformat hygyrch, cyn ymweliad. Gellir anfon canllaw i fynediad ar ffurf taflen neu ei ddarparu ar wefan er mwyn i bobl allu cynllunio eu hymweliad. Yn ogystal ag egluro sut y gellir cyrraedd yr adeilad gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, bydd yn disgrifio'r cyfleusterau parcio a'r trefniadau mynediad yn yr ardal ac yn yr ardal gyfagos, gan dynnu sylw at unrhyw gyfyngiadau mynediad a darpariaethau amgen a wnaed.

Dylai pob aelod o staff, ac yn enwedig y rheini sy'n ymdrin â'r cyhoedd, fod yn gyfarwydd â gofynion pobl anabl, a'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt. Mae gwybodaeth a hyfforddiant sy'n annog pobl i feddwl am y ffordd maent yn rheoli eu gweithgareddau i fod yn fwy cynhwysol yn fan cychwyn pwysig. Mae hyfforddiant o'r fath yn gofyn am ymrwymiad strategol ar ran unrhyw sefydliad ac mae'n arbennig o effeithiol pan fydd wedi'i dargedu'n benodol at rôl pob unigolyn.

4.6

# Tirwedd a Gosodiadau

**Mae Cadw yn argymell canllaw Historic England *Easy Access to Historic Landscapes*[46] er mwyn helpu perchnogion a rheolwyr eiddo i sicrhau bod eu tirweddau hanesyddol yn fwy hygyrch i bob ymwelydd. Mae'n rhoi arweiniad ar sicrhau cydbwysedd rhwng mynediad a chadwraeth, ac yn rhoi enghreifftiau o arfer da.**

Mae *Manual for Streets*[47] yn nodi egwyddorion arfer da o ran rheoli strydoedd — megis lleihau rhwystrau, cydgysylltu gwaith dylunio ac atgyfnerthu cymeriad lleol.

Dylid bob amser ystyried mynediad i adeilad rhestredig a'r ardal gyfagos, neu i dirweddau hanesyddol ehangach, o'r adeg y bydd yr unigolyn yn cyrraedd, boed ar droed, mewn car neu gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae llawer o lwybrau neu rodfeydd hanesyddol wedi'u gwneud o goblau neu balmentydd set, slabiau cerrig hollt neu raean, y gallant oll atal mynediad. Serch hynny, mae'r deunyddiau hyn yn aml yn rhan annatod o arwyddocâd a chymeriad y dirwedd.

**Hyb Cymunedol, Tŷ Tredegar, Casnewydd**

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi troi'r Hen Olchdy yn Nhŷ Tredegar, Casnewydd yn hyb cymunedol. Mae cegin hyfforddi hygyrch a lle i gymdeithasu y tu mewn iddo, a'r tu allan, mae gardd gymunedol ac ynddi ardd synhwyraidd gyffyrddadwy a gwelyau blodau uchel ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



**Cwrt y Bragdy yn Nhŷ Tredegar, Casnewydd**

Mae llwybr wyneb gwastad yn golygu ei bod yn hawdd croesi Cwrt coblog y Bragdy yn Nhŷ Tredegar, Casnewydd. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol © Hawlfraint y Goron (2022), Cadw, Llywodraeth Cymru



Fel gydag adeiladau rhestredig, y ffordd orau o sicrhau mynediad hawdd i erddi a thirweddau yw deall eu harwyddocâd ac anghenion defnyddwyr, gan felly gydbwyso anghenion mynediad a chadwraeth. Mae'r enghreifftiau o addasiadau y gellid eu hystyried a'u gwerthuso yn cynnwys y canlynol:

- gosod graean hunan-lynol yn lle arwynebeddau graean sy'n bodoli eisoes er mwyn darparu arwyneb cadarnach
- ailosod cerrig set â chymalau tynnach neu eu pwyntio er mwyn creu cymal llai cilfachog
- cynnwys llwybr gwastad o fewn ardal lle ceir arwyneb anwastad
- cyflwyno llwybrau amgen drwy barc neu at adeilad, ac ychwanegu arwyddion priodol
- cyflwyno llwybrau amgen sy'n cynnig mynediad i rai nodweddion a golygfeydd allweddol sy'n rhan o'r dirwedd, gan gydnabod o bosibl na fydd modd cael mynediad i bob ardal
- defnyddio dyfeisiau dehongli neu amlgyfrwng i ddarparu mynediad amgen i'r ardaloedd hynny na fydd modd cael mynediad ffisegol iddynt
- manteisio'n llawn ar nodweddion synhwyraidd pob gardd a thirwedd, a'r newidiadau tymhorol
- darparu canllawiau, cerbydau symudedd trydanol a mannau gorffwys rheolaidd er mwyn sicrhau'r lefelau mynediad gorau i gymaint o bobl â phosibl
- defnyddio staff hyfforddedig a theithiau tywys yn lle gwneud newidiadau ffisegol.

## 4.7 Dodrefn Stryd a Seddau

Dylai darparwyr gwasanaethau feddwl yn ofalus wrth ddylunio, lleoli a chyfiawnhau dodrefn stryd megis paneli dehongli, pyst, rheseli beiciau, arwyddion annibynnol, polion lamp a biniau gwastraff. Gallant achosi rhwystr os byddant wedi'u gosod ar lwybrau i gerddwyr. Gall gosod eitemau mewn grwpiau sicrhau eu bod yn fwy gweladwy ac felly'n achosi llai o berygl.

Dylai meinciau a seddau mewnol gynnig amrywiaeth o uchderau a dewis rhwng y rheini â chefnau a breichiau a rhai hebddynt. Dylai fod gofod hefyd i ddefnyddiwr cadair olwyn eistedd wrth ymyl cydymaith ar un o'r seddau. Dylai byrddau, lle y cânt eu darparu, fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae angen ystyried creu lleoedd i ddiwallu anghenion defnyddwyr cadeiriau olwyn yn ofalus er mwyn annog amgylchedd sydd wir yn gynhwysol ac yn groesawgar.

Dylai'r awdurdod cynllunio lleol allu rhoi cyngor ar unrhyw gynigion sy'n ymwneud â dylunio a mynediad ar gyfer adeilad rhestredig.

# Rhagor o Wybodaeth

## Deddfwriaeth

**Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979**
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/contents

**Deddf Cydraddoldeb 2010**
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**
www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/contents/made/welsh

**Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990**
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents

**Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001**
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2001/10

**Rheoliadau Adeiladu 2010**
www.legislation.gov.uk/uksi/2010/2214/contents/made

**Rheoliadau Adeiladau (Diwygio) (Cymru) 2014**
www.legislation.gov.uk/wsi/2014/110/contents/made/welsh

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, erthygl 7**
www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/801/contents/made/welsh

## Canllawiau Swyddogol a Dogfennau Polisi

**Dogfen Gymeradwy M: Mynediad i Adeiladau a Defnydd Ohonynt, argraffiad 2004 a ddiwygiwyd yn 2010 i'w ddefnyddio yng Nghymru**
gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/building-regulations-guidance-part-m-access-to-and-use-of-buildings.pdf

**Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy M: Mynediad i Adeiladau a Defnydd Ohonynt, argraffiad 2013 i'w ddefnyddio yng Nghymru**
llyw.cymru/canllawiau-ar-y-rheoliadau-adeiladu-diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-fis-medi-2013

**BS 8300-1:2018. Design of an Accessible and Inclusive Built Environment. Part 1: External Environment — Code of Practice, Y Sefydliad Safonau Prydeinig, 2018**
www.bsigroup.co.uk

**BS 8300-2:2018. Design of an Accessible and Inclusive Built Environment. Part 2: Buildings — Code of Practice, Y Sefydliad Safonau Prydeinig, 2018**
www.bsigroup.co.uk

**BS 9999:2017. Fire Safety in the Design, Management and Use of Buildings — Code of Practice, Y Sefydliad Safonau Prydeinig, 2017**
www.bsigroup.co.uk

**Deddf Cydraddoldeb 2010, Code of Practice: Employment Statutory Code of Practice, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2015**
www.equalityhumanrights.com/cy/node/835

**Deddf Cydraddoldeb 2010, Code of Practice: Services, Public Functions and Associations Statutory Code of Practice, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol,**
www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/services-public-functions-and-associations-statutory-code-practice

**Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru, 2018**
llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio, Llywodraeth Cymru, 2016**
llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-12-dylunio

**Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Llywodraeth Cymru, 2017**
llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, 2006**
www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities.html

**Gweithredu ar Anabledd: hawl i fyw'n annibynnol – fframwaith a chynllun gweithredu, Llywodraeth Cymru,**
llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol-fframwaith-chynllun-gweithredu

## Canllawiau Arfer Gorau

**Canllaw Cynllunio Cadwraeth, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, 2012**
www.heritagefund.org.uk/cy/publications/canllaw-cynllunio-cadwraeth

**Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011**
cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles_CY.pdf

**Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru: Pam, beth a Sut, Llywodraeth Cymru, 2017**
llyw.cymru/ceisiadau-cynllunio-canllawiau-ar-ddatganiadau-dylunio-mynediad

**Easy Access to Historic Landscapes Historic England, 2015**
historicengland.org.uk/images-books/publications/easy-access-historic-landscapes/

**Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017**
cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Heritage%20Impact%20Assessment%20in%20Wales%20CY.pdf

**Cynhwysiant, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, dim dyddiad**
www.heritagefund.org.uk/cy/publications/canllaw-cynhwysiant

**Inclusive Design in the Built Environment: Who Do we Design For? Llawlyfr i ategu hyfforddiant a ddarparwyd ar ran Llywodraeth Cymru gan Sandra Manley, Mawrth/Ebrill 2016**
dcfw.org/inclusive-design-in-the-built-environment/

**Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017**
cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%2024303%20CY.pdf

**Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2018**
cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/20181112Managing_Scheduled_Monuments_in_Wales_CYM.pdf

**Manual for Streets, Yr Adran Drafnidiaeth, 2007**
www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets

**Manual for Streets 2, Yr Adran Drafnidiaeth, 2010**
www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets-2

## Deunydd Darllen Cyffredinol


Barker, Peter a Fraser June, *Sign Design Guide – A Guide to Inclusive Signage*, Partneriaeth Mynediad JMU a'r Gymdeithas Dylunio Arwyddion, 2000.

Cave, Adrian, *Making Existing Buildings Accessible: Museums and Art Galleries*, RIBA, 2007.

*Practical Building Conservation: Conservation Basics*, English Heritage, Routledge, 2013.

Penton, John, *Widening the Eye of the Needle: Access to Church Buildings for People with Disabilities* (3ydd argraffiad wedi'i olygu), Church House Publishing, 2008.

Sawyer, Ann a Bright, Keith, *The Access Manual: Auditing and Managing Inclusive Built Environments* (2nd edn) Blackwell, 2008.


## Gwybodaeth Hanesyddol

**Archifau Cymru** — catalog ar-lein sy'n eich galluogi i chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol a ddelir gan 21 o archifau yng Nghymru. www.archifau.cymru

**Archwilio** — mae'n galluogi'r cyhoedd i weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff Archwilio ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth a gedwir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. www.archwilio.org.uk

**Coflein** — y catalog ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru. www.coflein.gov.uk/cy/

**Cof Cymru** — Cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchodedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2019. www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth?lang=cy

**Cynefin** — adnodd ar-lein i ymchwilio i fapiau degwm Cymru a'u mynegeion. www.lleoedd.llyfrgell.cymru/

**Cymru Hanesyddol** — porth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol www.cymruhanesyddol.gov.uk

**Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru** — mae'n cofnodi'r gwahanol ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, prif ffyrdd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodir mewn ffynonellau sy'n rhagddyddio'r Rhyfel Byd Cyntaf. enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
www.llyfrgell.cymru/

# Cysylltiadau

**Cadw**
Llywodraeth Cymru
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

cadw.llyw.cymru
03000 256000

Gellir cysylltu â swyddogion mynediad, cadwraeth a chynllunio awdurdodau cynllunio lleol drwy wefannau'r awdurdod lleol perthnasol.

## Sefydliadau Mynediad

**Cefn Gwlad Hygyrch i Bawb**
www.accessiblecountryside.org.uk

**Action on Hearing Loss**
www.actiononhearingloss.org.uk
0808 808 0123

**Age UK**
www.ageuk.org.uk
0800 055 6112

**Y Ganolfan Amgylcheddau Hygyrch**
www.cae.org.uk
020 7822 8232

**Anabledd Cymru**
www.disabilitywales.org/?lang=cy
029 2088 7325

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)**
Cyngor a chanllawiau i Gymru. www.equalityhumanrights.com/cy/comisiwn-yng-nghymru
029 2044 7710

**Anabledd Dysgu Cymru**
www.ldw.org.uk
029 2068 1160

**Mencap Cymru**
wales.mencap.org.uk/?gclid=EAIaIQobChMIk5KB05j22wIVq53tCh3R5QoCEAAYASAAEgKvuPD_BwE
0808 808 1111

**Mind Cymru**
www.mind.org.uk/about-us/mind-cymru-cymraeg/
0300 123 3393

**Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth**
www.autism.org.uk
020 7833 2299

**Y Gofrestr Genedlaethol o Ymgynghorwyr Mynediad**
www.nrac.org.uk
020 7399 7417

**Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru**
www.rnib.org.uk/wales-cymru-1
029 2082 8500

**Scope**
www.scope.org.uk
0808 800 3333

**Yr Ymddiriedolaeth Synhwyraidd**
www.sensorytrust.org.uk
01726 222900

**Thrive**
www.thrive.org.uk
0118 988 5688

**Menter Hygyrchedd y We**
www.w3.org/wai

## Cymdeithasau Amwynder

**Y Gymdeithas Henebion**
www.ancientmonumentssociety.org.uk
020 7236 3934

**Y Cyngor Archaeoleg Brydeinig**
www.archaeologyuk.org
01904 671 417

**Yr Ymddiriedolaeth Gerddi**
www.thegardenstrust.org
020 7608 2409

**Y Grŵp Sioraidd**
www.georgiangroup.org.uk
020 7529 8920

**Y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol (SPAB)**
www.spab.org.uk
020 7377 1644

**Cymdeithas yr Ugeinfed Ganrif**
www.c20society.org.uk
020 7250 385

**Ymddiriedolaeth y Theatrau**
www.theatrestrust.org.uk
020 7836 8591

**Y Gymdeithas Fictoraidd**
www.victoriansociety.org.uk
020 8994 1019

**Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru**
whgt.wales
01558 668 485

## Enwadau Crefyddol

**Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr**
www.baptist.org.uk
01235 517700

**Undeb Bedyddwyr Cymru**
www.buw.org.uk
01267 245660

**Eglwys Loegr**
www.churchofengland.org/resources/churchcare/advice-and-guidance-church-buildings/accessibility
0207 898 1863

**Cymanfa Gyffredinol yr Eglwysi Undodaidd a'r Eglwysi Cristnogol Rhydd**
www.unitarian.org.uk
020 7240 2384

**Jewish Heritage UK**
www.jewish-heritage-uk.org
161 238 8621

**Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr)**
www.quaker.org.uk
020 7633 1000

**Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru**
www.churchinwales.org.uk/cy/
029 2034 8200

**Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr**
www.cbcew.org.uk/care-of-churches
020 7630 8220

**Yr Eglwys Fethodistaidd**
www.methodist.org.uk
0161 235 6739 (swyddog cadwraeth)

**Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru**
www.methodistwales.org.uk
029 2076 1515

**Through the Roof**
www.throughtheroof.org

**Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig**
www.urc.org.uk
020 7916 202049

# Cyrff Eraill

**Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol y DU**
www.algao.org.uk
01975 564071

**Comisiwn Dylunio Cymru**
www.dcfw.org
029 2045 1964

**Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol**
www.heritagefund.org.uk/
020 7591 6000

**Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol (IHBC)**
www.ihbc.org.uk
01747 873133

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
www.nationaltrust.org.uk
01793 81740050

**Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA)**
www.architecture.com

**Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)**
www.rics.org/uk

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
www.rcahmw.gov.uk
01970 621200

# Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

**Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys**
41 Broad Street, y Trallwng SY21 7RR
01938 553670
trust@cpat.org.uk
cpat.org.uk/cy/hafan_cy/

**Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed**
Tŷ Cornel, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AE
01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent**
Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL
01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd**
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT
01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

# Dolenni o'r ddogfen hon

Os yw'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i safleoedd ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partïon, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig. Ni ddylid cymryd bod dolennu yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Nid oes gan Cadw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd tudalennau â dolenni ac nid yw'n derbyn cyfrifoldeb amdanynt hwy nac am unrhyw golled neu ddifrod a all godi os gwnewch eu defnyddio. .

**Cadw**
Llywodraeth Cymru
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

03000 256000

cadw@llyw.cymru

cadw.llyw.cymru

Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw, sy'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n dda.

# Ôl-nodyn

1 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles_CY.pdf

2 *Dogfen Gymeradwy M: Mynediad i Adeiladau a Defnydd Ohonynt,* argraffiad 2004 a ddiwygiwyd yn 2010 i'w ddefnyddio yng Nghymru www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/building-regulations-guidance-part-m-access-to-and-use-of-buildings.pdf *Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy M: Mynediad i Adeiladau a Defnydd Ohonynt*, argraffiad 2013 i'w ddefnyddio yng Nghymru llyw.cymru/canllawiau-ar-y-rheoliadau-adeiladu-diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-fis-medi-2013

3 BS 8300-1:2018. *Design of an Accessible and Inclusive Built Environment. Part 1: External Environment — Code of Practice*, Y Sefydliad Safonau Prydeinig, 2018. BS 8300-2:2018. *Design of an Accessible and Inclusive Built Environment. Part 2: Buildings — Code of Practice*, Y Sefydliad Safonau Prydeinig, 2018

4 *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio*, Llywodraeth Cymru, 2016, llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-12-dylunio

5 Comisiwn Dylunio Cymru www.dcfw.org; *Inclusive Design in the Built Environment: Who Do we Design For?* Llawlyfr i ategu hyfforddiant a ddarparwyd ar ran Llywodraeth Cymru gan Sandra Manley, Mawrth/Ebrill 2016 www.dcfw.org/inclusive-design-in-the-built-environment/

6 *Polisi Cynllunio Cymru,* Llywodraeth Cymru, llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

7 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol,* Llywodraeth Cymru, 2017 llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol

8 *Easy Access to Historic Buildings*, Historic England, 2015 www.historicengland.org.uk/images-books/publications/easy-access-to-historic-buildings/
Historic England 2015 sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd gwreiddiol. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Historic England i atgynhyrchu unrhyw ran o'r gwaith gwreiddiol, a rhaid cael caniatâd ysgrifenedig penodol gan Historic England a Cadw i atgynhyrchu unrhyw ran o'r addasiad hwn o'r gwaith hwnnw. Cedwir pob hawl. Nid yw Historic England yn derbyn unrhyw atebolrwydd am golled na difrod sy'n deillio o ddefnyddio'r wybodaeth yn y gwaith hwn.

9 Deddf Cydraddoldeb 2010, *Services, Public Functions and Associations: Statutory Code of Practice,* Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011, tud. 90, 7.4 www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/services-public-functions-and-associations-statutory-code-practice

10 Anabledd Cymru, Model cymdeithasol o anabledd www.disabilitywales.org/social-model/?lang=cy

11 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities.html

12 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020–24: Nodau, Amcanion a Chamau Gweithredu , Llywodraeth Cymru llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cynllun-cydraddoldeb-strategol-nodau-amcanion-a-chamau-gweithredu-ym-maes-cydraddoldeb-20202024.pdf

13 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles_CY.pdf

14 *Polisi Cynllunio Cymru*, Llywodraeth Cymru, 2018 llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

16 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989, www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/

17 Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents/enacted/welsh

18 Deddf Cydraddoldeb 2010, www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

19 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/contents/made/welsh

20 Deddf Cydraddoldeb 2010, Rhan 11, Pennod 1: Dylestwydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/part/11/chapter/1

21 BS 8300-1:2018. *Design of an Accessible and Inclusive Built Environment. Part 1: External Environment — Code of Practice*, Y Sefydliad Safonau Prydeinig 2018. BS 8300-2:2018. *Design of an Accessible and Inclusive Built Environment. Part 2: Buildings — Code of Practice*, Y Sefydliad Safonau Prydeinig, 2018

22 *Dogfen Gymeradwy M: Mynediad i Adeiladau a Defnydd Ohonynt,* argraffiad 2004 a ddiwygiwyd yn 2010 i'w ddefnyddio yng Nghymru www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/building-regulations-guidance-part-m-access-to-and-use-of-buildings.pdf *Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy M: Mynediad i Adeiladau a Defnydd Ohonynt*, argraffiad 2013 i'w ddefnyddio yng Nghymru llyw.cymru/canllawiau-ar-y-rheoliadau-adeiladu-diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-fis-medi-2013

*23* Deddf Cydraddoldeb 2010, Rhan 11, Pennod 1: Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/part/11/chapter/1

*24* Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/contents/made/welsh

*25* Erthygl 7 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012/801, www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/801/contents/made/welsh fel y'i diwygiwyd gan erthygl 9 o Orchymyn Diwygio Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2016, www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/59/article/4/made/welsh

*26* Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2017 llyw.cymru/ceisiadau-cynllunio-canllawiau-ar-ddatganiadau-dylunio-mynediad

*27* *Dogfen Gymeradwy M: Mynediad i Adeiladau a Defnydd Ohonynt,* argraffiad 2004 a ddiwygiwyd yn 2010 i'w ddefnyddio yng Nghymru www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/building-regulations-guidance-part-m-access-to-and-use-of-buildings.pdf
*Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy M: Mynediad i Adeiladau a Defnydd Ohonynt*, argraffiad 2013 i'w ddefnyddio yng Nghymru llyw.cymru/canllawiau-ar-y-rheoliadau-adeiladu-diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-fis-medi-2013

*28* BS 8300-1:2018. *Design of an Accessible and Inclusive Built Environment. Part 1: External Environment — Code of Practice*, Y Sefydliad Safonau Prydeinig, 2018, BS 8300-2:2018. *Design of an Accessible and Inclusive Built Environment. Part 2: Buildings — Code of Practice*, Y Sefydliad Safonau Prydeinig, 2018

*29* Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/contents

*30* Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012, www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/793/contents/made/welsh fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017, www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/638/made/welsh

*31* *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%2024303%20CY.pdf

*32* *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Heritage%20Impact%20Assessment%20in%20Wales%20CY.pdf

*33* Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018 www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/1087/contents/made/welsh

*34* Rheoli Newid i Fannau Addoli Hanesyddol yng Nghymru: *Esemptiad Eglwysig,* Llywodraeth Cymru, Cadw, 2018 cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/addoli-hanesyddol#section-yr-esemptiad-eglwysig

*35* Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, www.legislation.gov.uk/ukpga/1979/46/contents

*36* *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2018 cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/20181112Managing_Scheduled_Monuments_in_Wales_CYM.pdf

*37* *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Registered%20Historic%20Parks%20%26%20Gardens%20in%20Wales%2026922%20CY_0.pdf

*38* Y Gofrestr Genedlaethol o Ymgynghorwyr Mynediad, www.nrac.org.uk

*39* Deddf Cydraddoldeb 2010, www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

*40* Deddf Cydraddoldeb 2010, *Services, Public Functions and Associations: Statutory Code of Practice,* Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011, 7.51–7.63, www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/services-public-functions-and-associations-statutory-code-practice

*41* Deddf Cydraddoldeb 2010, *Services, Public Functions and Associations: Statutory Code of Practice,* Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011, 7.80, www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/services-public-functions-and-associations-statutory-code-practice

*42* Deddf Cydraddoldeb 2010, *Services, Public Functions and Associations: Statutory Code of Practice,* Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011, www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/services-public-functions-and-associations-statutory-code-practice

*43* Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005*,* www.legislation.gov.uk/uksi/2005/1541/contents/made

*44* *Fire Safety Risk Assessment: Means of Escape for Disabled People*, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2007 www.gov.uk/government/publications/fire-safety-risk-assessment-means-of-escape-for-disabled-people

*45* BS 9999:2017 *Code of Practice for Fire Safety in the Design, Management and Use of Buildings*, Y Sefydliad Safonau Prydeinig, 2017 , 2017, *Expert Commentary on BS 9999:2017 Fire safety in the design, management and use of buildings. Code of Practice*, Y Sefydliad Safonau Prydeinig, 2017

*46* *Easy Access to Historic Landscapes,* Historic England, 2015 www.historicengland.org.uk/images-books/publications/easy-access-historic-landscapes/

*47* *Manual for Streets*, Yr Adran Drafnidiaeth, 2007, www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets
*Manual for Streets 2*, Yr Adran Drafnidiaeth, 2010, www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets-2

Canllawiau technegol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government